

**Adroddiad ac argymhellion Grŵp
Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod
Genedlaethol**

Hydref 2013

Adroddiad ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol

Trosolwg

Yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 fe holodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews, y cwestiwn a ddylai'r Eisteddfod foderneiddio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Grŵp Gorchwyl) ym mis Hydref 2012 er mwyn cyflwyno argymhellion iddo ar gyfres o gwestiynau a godwyd ganddo. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys argymhellion y Grŵp Gorchwyl ar gyfer gwella a datblygu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r dyfodol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg yn y Gymuned

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 060 4400

e-bost: unediaithgymraegwelshlanguageunit@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

www.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Rhagair y cadeirydd | 1 |
| Rhan 1: Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir sefydlu'r Grŵp Gorchwyl | 4 |
| Dull gweithredu'r Grŵp Gorchwyl | 4 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol | 5 |
| Rhan 2: Y themâu a'r ymgynghoriad cyhoeddus | 7 |
| Thema 1: Lleoliadau | 7 |
| Thema 2: Y cystadlu a'r Wyl | 15 |
| Thema 3: Gwirfoddolwyr | 16 |
| Thema 4: Yr oes ddigidol | 18 |
| Thema 5: Gwella profiad a chynyddu niferoedd yr ymwelwyr | 20 |
| Thema 6: Cydweithio rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd | 25 |
| Thema 7: Ffynonellau cyllid | 26 |
| Yr ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiad 7) | 28 |
| Rhan 3: Argymhellion | 30 |
| Argymhelliad 1 | 30 |
| Argymhelliad 2 | 30 |
| Argymhelliad 3 | 30 |
| Argymhelliad 4 | 30 |
| Argymhelliad 5 | 30 |
| Argymhelliad 6 | 31 |
| Argymhelliad 7 | 31 |
| Argymhelliad 8 | 31 |
| Argymhelliad 9 | 31 |
| Atodiad 1: Cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl | 32 |
| Atodiad 2: Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl | 34 |
| Atodiad 3: Rhestr sefydliadau/unigolion a gyflwynodd dystiolaeth yn y cyfarfodydd | 35 |
| Atodiad 4: Adroddiadau a chyhoeddiadau a welwyd ac a gomisiynwyd gan y Grŵp Gorchwyl | 36 |
| Atodiad 5: Cyflwyniadau a gomisiynwyd gan y Grŵp Gorchwyl | 38 |
| Atodiad 6: Aelodaeth a chasgliadau yr Is-Grwpiau Gorchwyl | 39 |
| Atodiad 7: Yr ymgynghoriad cyhoeddus | 44 |

Rhagair y cadeirydd

“Rydym yn argymhell y dylai'r Eisteddfod barhau i fod yn wyl symudol.”
Roy Noble, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Medi 2013

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl fis Hydref 2012 gan Mr Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, i ystyried a ddylid moderneiddio'r Eisteddfod Genedlaethol. Fel Cadeirydd, rwy'n mawr obeithio y bydd y rhan fwyaf o bobl sydd â chonsŷrn am les a dyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol yn teimlo bod ein trafodaethau a'n hargymhellion yn rhesymegol ac yn rhesymol.

Yn ôl Cyfraith Parkinson, mae pwyllgor, grŵp neu gabinet ar ei fwyaf effeithiol pan fydd nifer yr aelodau rhwng tri ac ugain. Pan aiff y nifer dros ugain, mae'n mynd yn anodd dod i gonsensws. Deuddeg oedd yn ein Grŵp ni, felly roeddwn i'n obeithiol y byddem yn gwneud penderfyniadau ac argymhellion oedd yn synhwyrol ac yn gymeradwy. Fodd bynnag, ar rai materion, er gwaethaf dadlau a thrafod brwd, ni ddaethpwyd i gonsensws. Ond yn gyffredinol roedd yna gytgord, sirioldeb ac awydd gwirioneddol i gyfrannu'n adeiladol.

Roedd y Grŵp, a gafodd gymorth abl tri swyddog o Lywodraeth Cymru, yn groestoriad diddorol o gymdeithas Cymru ac yn amrywio o ran eu cefndir - rhai â phrofiad o'r cyfryngau, un yn *guru* gwyliau o bob math, ambell eisteddfodwr pybyr, un â phen busnes ac un gwleidyddol iawn ei feddylfryd. Roedd gan bob un brofiad helaeth o feysydd diddordeb ac arbenigedd di-ben-draw. Fel Cadeirydd, rwy'n mawr obeithio y bydd ein hargymhellion terfynol, gan mwyaf, yn sicrhau ffyniant yr Eisteddfod, yn bodloni'r rhai sydd â dileit, ac yn cynnig tawelwch meddwl bod yna ddyfodol disglair a diogel i'r Wyl. Ac wrth sôn am 'y rhai sydd â dileit', rwy'n cyfeirio at deulu clòs yr Eisteddfod, y cefnogwyr brwd, yr adolygwyr sy'n rhyw edrych o hirbell a'r rheini sydd â rhyw hanner diddordeb ac sy'n gweld yr Wyl yn rhywbeth pwysig i Gymru, ond nid iddyn nhw.

Wrth gwrs, mae yna rai a fydd yn ddifater iawn, y di-Gymraeg yn bennaf, er y bydd hyn yn wir i raddau hefyd am rai sy'n siarad yr iaith. O'm profiad i, serch hynny, mae'r Eisteddfod yn eitha uchel ei pharch ymhlith y sectorau hyn hefyd - pobl sy'n dangos parch tuag at yr arlwy o ddiwylliant a threftadaeth Gymraeg, a pharch tuag at ansawdd y perfformio a safonau uchel y cystadlu. Mae yna ymdeimlad cyffredinol o falchder yn yr hyn y mae'n ei gynrychioli, er nad ydynt yn mynegi eu balchder ar goedd yn aml iawn. Yn anffodus, serch hynny, mae yna rai ar yr ymylon yn dal i weld yr elfen grachaid, elitaidd, sy'n perthyn i'r Wyl, ac yn canfod ynddi ryw Gymru arall, tu hwnt i'w cyrraedd. Rhaid canmol yr Eisteddfod am weithio'n galed i newid y canfyddiad hwn ac am greu gŵyl fwy cynhwysol a chroesawgar i Gymru gyfan, gŵyl y gall y genedl gyfan ymfalchïo ynddi a'i pherchenogi, gŵyl sy'n ymestyn i bob twll a chornel o Gymru ac i holl gymunedau ein gwlad, gŵyl nad yw'n glastwreiddio ei gorffennol a gŵyl sy'n mynd ati'n egniol i ddiogelu ei hiaith, ei thraddodiad a'i threftadaeth. Mae'n dasg a hanner, ond mae'r ymrwymiad yno. Gwelodd y Grŵp dystiolaeth glir o hyn ar ei ymweliad â'r Eisteddfod yn Ninbych eleni.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru inni gynnal yr adolygiad hwn. Braint i mi - ac i aelodau eraill y Grŵp - oedd derbyn y dasg. Nid oedd y Gymraeg yn rhan o'r briff. Petai wedi bod yn rhan ohono, ni fyddwn wedi derbyn y rôl. Nid oeddem dan bwysau i fod yn

radical. Roedd y Gweinidog yn agored ei feddwl am yr argymhellion terfynol. Yn ei restr o bwyntiau i'w trafod, awgrymodd y Gweinidog mai un posibilrwydd fyddai dod â'r drefn deithio flynyddol i ben. Byddai'r drefn honno'n cynnig dau safle parhaol a dau leoliad symudol. Ac, wrth inni drafod, roedd yn anorfod ein bod yn trafod y posibilrwydd o gael un safle parhaol.

Erbyn hyn, mae'r rhestr gyflawn o bwyntiau a roddwyd i'r Grŵp eu trafod yn wybodaeth gyhoeddus. Fe'u trafodir yn yr adroddiad hwn ac mae'r argymhellion i'w gweld yn y tudalennau a ganlyn.

Wrth fynd ati i osod llwybr cadarn ar gyfer yr ŵyl unigryw hon, gŵyl y mae'r iaith yn llifo drwy ei gwythiennau, roeddem yn ymwybodol iawn bod angen i'r Eisteddfod gael budd a lles o'n trafodaethau. Gan gadw hynny mewn golwg, aethom ati'n eiddgar i holi barn cynulleidfa eang. Er mwyn ehangu'r drafodaeth roeddwn i'n awyddus i fynd y tu hwnt i'r pwyntiau a gododd y Gweinidog. Ar sail fy mhrofiad blynyddoedd mewn addysg a darlledu, rwyf wastad wedi credu bod rhydd i bawb ei farn, beth bynnag fo'i oedran a'i gefndir. Wedi'r cwbl, mae integriti yn dibynnu ar wirionedd a thryloywder.

Teg yw nodi bod yr Eisteddfod ei hun wedi cymryd nifer o gamau i foderneiddio'r sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. P'un a ddigwyddodd hynny fel adwaith i sefydlu'r Grŵp hwn ai peidio, nid yw hynny'n berthnasol. Mae'r ffaith bod yna gamau positif ac adeiladol o fewn gweinyddiaeth yr Eisteddfod i ddatblygu i'r dyfodol yn rhywbeth i'w gymeradwyo a'i gefnogi.

Hoffwn nodi hefyd fod gwaith ac ymrwymiad Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod yn agoriad llygad. Gwirfoddolwyr ydynt i gyd, nid yw unrhyw un yn cael ei dalu, nid yw unrhyw un yn gofyn am dreuliau. Hefyd maent yn gwneud eu gwaith gan wybod y gallai'r cyfrifoldeb, petai rhywbeth annisgwyl yn digwydd, fod yn eithriadol o feichus arnynt fel Aelodau'r Cyngor.

O ran staff parhaol yr Eisteddfod, mae llai ohonynt nag a fu yn y gorffennol, a hynny yn sgil ymdrechion i dorri costau. Maent yn gweithio o dan bwysau eithriadol, ond mae'r hyn y maent yn llwyddo i'w gyflawni yn ganmoladwy tu hwnt. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y mater hwn, ac rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o gyllid mewn ymateb, ac y dylid mynd i'r afael â hynny yn ddi-oed. Mae manylion yr argymhelliad hwn, fel pob un arall a wnawn, yn yr adroddiad hwn.

Does dim dwywaith na fydd ambell un yn teimlo ein bod wedi colli cyfle i fod yn radical ac i leoli'r Eisteddfod mewn un safle parhaol. Bydd eraill yn teimlo nad yw'r Grŵp wedi bod yn ddigon uchelgeisiol, na dewr, na mentrus, na chwyldroadol, na chreadigol, a'n bod wedi mynd am y dewis hawdd, sef y *status quo*. Fel Grŵp, bydd yn rhaid inni fyw gyda'r ddau begwn barn. O ran y rhai sy'n dal yn anhapus, rhaid dweud mai peth felly yw bywyd. Mewn democratiaeth, consensws sy'n symud pethau ymlaen; a'r gwir amdani yw bod rhaid wynebu ffeithiau weithiau, hyd yn oed pan nad ydynt wrth ein bodd. Gwnaed yr argymhelliad yn wrthrychol, ar ôl ystyried yr hyn oedd gan y bobl ar y ffas i'w ddweud, ar ôl dadansoddi asesiad annibynnol arbenigwyr, ac ar ôl trafod maith. Mae'r adolygiad ei hun wedi bod yn werthfawr dros ben ac wedi rhoi fforwm ffurfiol i'r ddadl barhaus ynghylch a ddylai'r Eisteddfod fod yn symudol ai peidio. Fel Cadeirydd, nid wyf yn poeni am ego neu ddelwedd y Grŵp, p'un a yw pobl yn ystyried ein bod yn egniol neu'n ddidaro, yn awyddus i ddiwygio neu'n ddiffygiol yn ein cysylltiad â'r bobl. I mi,

gwneud ein gorau glas dros yr Eisteddfod a sicrhau dyfodol hyderus fu'r agenda a'r nod erioed. Mae'r Grŵp o'r farn mai'r argymhelliad hwn yw'r llwybr cywir i'w ddilyn a dyma fydd ein gwaddol. Rwy'n hapus iawn i'w amddiffyn. Yn dilyn ein trafodaethau maith, rwy'n hyderus mai dyma'r penderfyniad iawn.

Mae gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, felly, yn gyflawn. Nid gorchmynion sydd gennym, ond argymhellion i'r Prif Weinidog, y Gwir Anrh Carwyn Jones, eu hystyried. Rydym yn eu cyflwyno'n ffyddiog ac mae rhwydd hynt iddo eu derbyn, eu newid, neu eu gwrthod.

Hoffwn ddiolch o galon i aelodau'r Grŵp, ac i'r tri swyddog o Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad amhrisiadwy, am eu gwaith diwyd, eu hymrwymiad a'u hintegriti wrth iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb aruthrol hwn. Rydym wedi gwneud ein gorau glas ac wedi creu coctel o gynigion ac argymhellion, gyda joch go dda, gobeithio, o synnwyr cyffredin. Rydym wedi gwneud hynny er lles y cyhoedd ac er budd yr Eisteddfod Genedlaethol - gŵyl unigryw ac eiconig, seren ddisglair yn ffurfafen ddiwylliannol Cymru.

I bawb y mae'r Eisteddfod yn annwyl iddynt, a chan gofio nod y Grŵp a sefydlwyd gan y Gweinidog, cofiwch mai yn y gwyntoedd cryfaf y mae coed yn bwrw'u gwreiddiau ddyfnaf.

Roy Noble

Rhan 1: Cyflwyniad

Cefndir sefydlu'r Grŵp Gorchwyl

1. Yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 fe holodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews AC, a ddylai'r Eisteddfod foderneiddio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Hydref 2012 er mwyn cyflwyno argymhellion iddo ar sut i gyflawni hyn. Dewiswyd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl ar sail eu harbenigedd yn y Maes, a'r ystod eang o brofiadau a gwybodaeth a gynigir ganddynt.
2. Rhoddwyd tasg benodol i'r Grŵp Gorchwyl gan y Gweinidog a golygodd hyn fod y Grŵp yn glir iawn o'r dechrau beth oedd ei Gylch Gorchwyl (gweler Atodiad 1). Nid oedd yn cynnwys trafodaeth ar newid rheol Gymraeg yr Eisteddfod. Gofynnodd y Gweinidog gyfres o gwestiynau roedd yn awyddus i'r Grŵp Gorchwyl eu hystyried. Er mwyn hwyluso'r gwaith, rhannwyd y cwestiynau i saith thema a phenderfynwyd mynd ati i wahodd tystiolaeth berthnasol i gynorthwyo'r aelodau i ddod i gasgliadau a chyflwyno argymhellion pwrpasol.
3. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn unfrydol o blaid cynnig argymhellion fyddai'n cynorthwyo'r Eisteddfod i foderneiddio yn hytrach na chreu unrhyw rwystrau. [Dymuna'r Grŵp gydnabod y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ddatblygu'r Eisteddfod, fel y gwelwyd eleni ym Mhrifwyl Dinbych, a diolch i staff yr Eisteddfod am eu cymorth parod gyda'r adolygiad hwn.]
4. Yn ystod oes bodolaeth y Grŵp Gorchwyl symudodd y cyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru i'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC. Tasg y Grŵp Gorchwyl felly yw cyflwyno argymhellion i'r Prif Weinidog eu hystyried.

Dull gweithredu'r Grŵp Gorchwyl

5. Dyma'r saith thema y penderfynwyd arnynt yn sgil trafodaeth ar y Cylch Gorchwyl (Atodiad 1):
 - Lleoliadau;
 - Y cystadlu a'r Wyl;
 - Gwirfoddolwyr;
 - Yr oes ddigidol;
 - Gwella profiad a chynyddu niferoedd ymwelwyr;
 - Cydweithio rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol;
 - Ffynonellau cyllid yr Eisteddfod.
6. Er mwyn cyflwyno argymhellion ar sail tystiolaeth gadarn penderfynwyd ar amrywiaeth o ddulliau o gasglu tystiolaeth. Roedd llawer o adroddiadau blaenorol wedi'u paratoi ar yr Eisteddfod gan arbenigwyr i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a gan yr Eisteddfod Genedlaethol ei hunan. Yn ogystal â manteisio ar y rhain, comisiynwyd adroddiadau ymchwil newydd. Gwahoddwyd nifer o sefydliadau ac unigolion i wneud cyflwyniadau i'r Grŵp Gorchwyl. Roedd hi'n bwysig hefyd fod yr aelodau'n cael profiad o fynychu'r Eisteddfod a chwrdd â gwirfoddolwyr a staff yr Eisteddfod. Trefnwyd felly ymweliadau â'r Pwyllgor Gwaith a hefyd â'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein a ddenodd nifer fawr o ymatebion.

7. Cynhaliwyd 10 o gyfarfodydd i'r Grŵp Gorchwyl rhwng Tachwedd 2012 a Medi 2013, ynghyd ag ymweliad â chyfarfod Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau ar 1 Gorffennaf 2013 ac ymweliad â Maes Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013 ar 7 Awst 2013. Sefydlwyd tri is-Grŵp Gorchwyl i drafod rhai o'r themâu, sef is-Grŵp Gŵyl, is-Grŵp Data, ac is-Grŵp Technoleg.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

8. Cenhadaeth yr Eisteddfod Genedlaethol (gweler Cynllun Busnes yr Eisteddfod Genedlaethol 2012-2014 yn Atodiad 4) yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu'r iaith Gymraeg, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae'n ŵyl flynyddol sydd yn cael ei threfnu er mwyn dathlu popeth Cymraeg ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:
 - Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
 - Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
 - Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
 - Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.
9. Mae'r Grŵp Gorchwyl yn gytûn bod yr Eisteddfod Genedlaethol drwy ei gweithgaredd yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir o fewn ei Strategaeth Iaith, *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 -2017* a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012, sef gweld y Gymraeg yn ffynnu a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru. Mae'r Eisteddfod mewn gwirionedd yn brosiect cymunedol sydd yn dechrau tua dwy flynedd cyn dyfodiad Eisteddfod i ardal. Mae targed ariannol yn cael ei osod i drigolion yr ardal o ran y Gronfa Leol, sef yr arian a gesglir yn lleol i gefnogi ymweliad yr Eisteddfod. Mae'r gweithgarwch sydd yn deillio o'r ymdrechion i godi arian yn cyfrannu at gyfalaf cymdeithasol yr ardal ac yn cynnig cyfleoedd i bobl fynyachu digwyddiadau Cymraeg, a defnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Yn ardal Dinbych a'r cyffiniau, mewn paratoad ar gyfer Eisteddfod 2013, sefydlwyd 40 o bwyllgorau apêl lleol a chynhaliwyd dros 360 o ddigwyddiadau codi arian.
10. Derbyniodd yr Eisteddfod grant o £543,000 drwy Gynllun Grant i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a hynny er mwyn cynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni'i Strategaeth Iaith. Mae'r grant yn cyfrannu at gostau craidd staffio'r Brifwyl; mae targedau yn cael eu cytuno yn flynyddol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r grant hefyd yn cynnwys cyllid o £50,000 ar gyfer cyflogi Swyddog y Dysgwyr a chefnogi gweithgareddau Maes D. Mae cyfanswm y grant hwn wedi aros yn sefydlog ers 2010. Mae grant y Llywodraeth yn cyfrannu 13% o'r cyllid angenrheidiol i gynnal yr Ŵyl gydag incwm o ffynonellau eraill yn dod o werthiant tocynnau maes a chyngherddau, nawdd corfforaethol, ymdrechion codi arian lleol a hawliau darlledu. Cost cynnal Eisteddfod Bro Morgannwg 2012 oedd £3.4m.

11. Yn ôl yr Athro Terry Stevens, (Cwmni Stevens and Associates a gomisiynwyd yn 2003 gan yr Eisteddfod Genedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i gynnal arolwg o'r Eisteddfod yn 2003) (Atodiad 4 - Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Y Ffordd Ymlaen) gellir dadlau bod yr Eisteddfod yn unigryw o ran ei gallu i greu adfywiad economaidd a chymdeithasol yn ogystal â chryfhau seilwaith y Gymraeg. Mae'r gweithgarwch sydd yn digwydd ar nifer o wahanol lefelau yn ystod y broses o baratoi ar gyfer dyfodiad yr Eisteddfod yn cynorthwyo i wneud hyn. Mae prosiect adfywio llwyddiannus yn:
- Tynnu cymunedau at ei gilydd ac yn eu cynnwys yn y gwaith
 - Rhoi pwrpas ac agenda cyffredin
 - Creu ffocws a balchder
 - Cynnwys gweithgaredd cymdeithasol, diwylliannol, addysgol, ieithyddol ac economaidd
 - Bod yn glir o ran beth yw allbwn a chanlyniad y gweithgareddau
 - Creu gwaddol hirdymor.
12. Ym marn Terry Stevens, mae'r Eisteddfod yn llwyddo i gyflawni'r holl elfennau uchod ac y dylid felly ystyried yr Eisteddfod yn rhan o bolisi adfywio yng Nghymru. Cafodd y Grŵp Gorchwyl gyfle i drafod y syniadaeth uchod yn ystod eu hymweliad â'r Maes yn Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013. Cytunwyd bod hwn yn awgrym cychwynnol diddorol ac y dylid cyflwyno'r syniad drwy'r adroddiad hwn i'r Eisteddfod ystyried gwneud ymchwil pellach yn ei gylch.
13. Trafododd y Grŵp Gorchwyl yn gynnar iawn y ffaith mai pwrpas y Grŵp oedd cynnig argymhellion i'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ac y byddai'n fater i Gyngor a Llys yr Eisteddfod eu hunain benderfynu a fyddent yn mabwysiadu'r argymhellion a gynigid. Yn ogystal cafwyd arweiniad gan y cyn Weinidog dros Addysg a Sgiliau na ddylai trafodaethau'r Grŵp Gorchwyl gael eu cyfyngu gan ystyriaethau ariannol.
14. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn awyddus i gynnwys staff yr Eisteddfod yn y trafodaethau a daeth y Llywodraeth a'r Eisteddfod i gytundeb ar raglen o gyfarfodydd rhannu gwybodaeth. Roedd y rhaglen yn cynnwys: cyfarfodydd rhwng y swyddogion ar ôl pob cyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl, dau gyflwyniad gan swyddogion a gwirfoddolwyr yr Eisteddfod (un ar ddechrau'r broses ac un cyn Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau i sôn am y datblygiadau newydd); ymweliad gan rai o aelodau'r Grŵp Gorchwyl â chyfarfod o Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau a thaith wedi'i thywys gan Brif Weithredwr yr Eisteddfod ar gyfer aelodau'r Grŵp Gorchwyl i faes Eisteddfod Dinbych.

Rhan 2: Y themâu a'r ymgynghoriad cyhoeddus

Thema 1: Lleoliadau

Rhagair

15. O'r holl themâu, dyma'r un y treuliodd y Grŵp Gorchwyl y rhan fwyaf o'i amser yn ei thrafod ac fe gododd y mater ym mhob un o'r cyfarfodydd. Gosodwyd dau gwestiwn cyntaf y Cylch Gorchwyl o dan y thema hon sef:

- Beth yw'r manteision a'r anfanteision o adleoli'r Eisteddfod bob blwyddyn rhwng De a Gogledd Cymru ac i leoliadau newydd bob tro? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? A ddylid dilyn cylch pedair blynedd gan leoli'r Eisteddfod ar ddau safle parhaol, un yn y Gogledd-orllewin a'r llall yn y Gorllewin, a theithio rhwng y De a'r Gogledd am yn ail ar gyfer y ddwy flynedd arall?
- A allai lleoliadau parhaol i'r Eisteddfod ysgogi'r ardaloedd hynny yn economaidd, gan hybu twristiaeth ddiwylliannol, ac adlewyrchu'r celfyddydau yng Nghymru ar eu gorau?

16. Derbyniwyd tystiolaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys: unigolion a sefydliadau (Atodiad 3 a 5); ymweliadau gan y Grŵp Gorchwyl; adroddiadau ymchwil (Atodiad 4); a gan yr ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiad 7). Canolbwyntiodd yr Aelodau ar fanteision ac anfanteision mudoledd yr Eisteddfod, yr arbedion/cynnydd ariannol mae gwahanol fodelau yn eu cynnig, a hynny mewn perthynas â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

17. Derbyniwyd tystiolaeth gan yr Eisteddfod Genedlaethol am fanteision parhau yn ŵyl deithiol. Rhoddwyd cyflwyniad gan swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol ar y canlynol:

- cefndir ac amcanion yr Ŵyl
- partneriaethau strategol a grëir gan ddyfodiad yr Eisteddfod i ardal
- beth yw cyfraniad yr Ŵyl i Gymru
- materion cyllid
- datblygiadau'r Ŵyl i'r dyfodol

18. Manylodd y cyflwyniad hefyd ar y canlynol:

- yr ymchwil cynulleidfa
- marchnata
- sylw yn y wasg Saesneg yng Nghymru
- rhannu gwybodaeth gydag ymwelwyr.

Cymharu'r Eisteddfod Genedlaethol â gwyliau eraill

19. Mewn ymateb i awgrymiadau gan y Grŵp Gorchwyl y gallai'r Eisteddfod Genedlaethol ddefnyddio Maes Sioe Frenhinol Cymru, soniwyd yng nghyflwyniad swyddogion yr

Eisteddfod Genedlaethol am brofiad yr Eisteddfod o ymweld â Maes y Sioe yn 1993. Nodwyd fod y ddwy sioe yn cael eu cynnal yn agos o ran amser i'w gilydd a pha mor anodd oedd cael Maes y Sioe yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

20. Yn 1993 gweithiodd pedwar tîm technegol bedair awr ar hugain y dydd dros gyfnod o 9 diwrnod er mwyn galluogi'r Eisteddfod i ddefnyddio Maes y Sioe. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cynnal yr Eisteddfod yno, gan na fyddai rhai o gynulleidfa graidd yr Eisteddfod, sydd hefyd yn gynulleidfa graidd i'r Sioe, eisiau dychwelyd i Lanelwedd ddwy waith o fewn tair wythnos i fynychu'r ddwy Wyl. Prif bryder yr Eisteddfod ynglŷn â defnyddio Maes y Sioe yw goblygiadau tywydd drwg adeg y Sioe a'r effaith a gai hynny ar drefniadau parcio a charafanio'r Eisteddfod. Yn 2007 roedd y tywydd yn wael iawn yn y cyfnod cyn ac yn ystod y Sioe ac roedd cerbydau yn cael eu llusgo i mewn ac allan o'r meysydd parcio a'r meysydd carafannau adeg y Sioe. Byddai wedi bod yn amhosib i'r Eisteddfod ddefnyddio'r tiroedd hyn petai'r Brifwyl yno yn 2007.
21. Cafodd y Grŵp Gorchwyl gyfle i drafod yn fanylach gyda'r Eisteddfod beth yw'r gwahaniaethau rhwng modelau yr Eisteddfod a'r Sioe. Yn benodol soniodd yr Eisteddfod am y cronfeydd ariannol a'r ymdrech leol i godi arian i'r ddau ddigwyddiad. Petai'r Eisteddfod yn adleoli i un neu ddau leoliad, pryder yr Eisteddfod yw y byddai'n fwy anodd ysgogi pwyllgorau lleol i godi arian i Eisteddfod na fyddai'n digwydd yn eu hardal hwy, fel sy'n digwydd gyda'r Sioe. Dadleuodd yr Eisteddfod fod y Sioe ynghlwm wrth y diwydiant amaeth, a'i bod hefyd yn gyfle masnachol pwysig blynyddol i ffermwyr, ac mai hyn sydd yn ysgogi ymdrechion yr hen siroedd i godi arian i'r Sioe yn eu tro. Mae hon yn drefn strwythuredig sydd wedi datblygu dros gyfnod eithaf maith erbyn hyn.
22. Mae'r ffaith bod yr Eisteddfod yn teithio o gwmpas Cymru'n flynyddol yn sicrhau bod gwahanol ardaloedd yn gyfrifol am y gronfa leol ac nad oes gormod o bwysau yn cael eu rhoi ar yr un cymunedau. Byddai'r Eisteddfod yn colli cronfa leol bwysig o fwy na £300k yn flynyddol pe na bai'r ymdrechion lleol hyn i godi arian yn digwydd.
23. Mynegwyd mai prif nod yr Eisteddfod yw hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae teithio i ardaloedd ledled Cymru, a'r bwrlwm codi arian yn ystod y ddwy flynedd cyn ei hymweliad ag ardal, yn sicrhau gwaddol bwysig. Pwysleisiwyd bod yr elfen hon yn cyfrannu at wireddu Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, *laith fyw: iaith byw*, wrth gryfhau safle'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru. Nodwyd bod y gweithgareddau sy'n digwydd cyn ymweliad yr Eisteddfod yn sicrhau cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau gwledig a threfol ledled Cymru drwy'r flwyddyn. Maent hefyd yn sicrhau cyfleoedd arbennig i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i ddenu dysgwyr i weithgareddau cyfrwng Gymraeg. Nodwyd y pontio sy'n digwydd rhwng y Gymuned Gymraeg a'r di-Gymraeg fel a ddigwyddodd yng Ngresfordd adeg Eisteddfod Wrecsam 2011. Yn yr ardaloedd Seisnigedig mae hyn yn arbennig o wir lle cynigia ymweliad yr Eisteddfod (y gweithgareddau paratoadol a'r Wyl ei hun) gyfle i'r di-Gymraeg o bob cefndir brofi a deall rhywfaint am gefndir a diwylliant Cymru.
24. Cafwyd cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Morgannwg 2012 ar ei argraffiadau o'r gwaith o drefnu ymweliad yr Eisteddfod a'i effaith ar yr ardal. Cododd y Cadeirydd amheuaeth am allu pwyllgorau lleol i godi swm cymaint â £320,000 heb fod yr Eisteddfod yn digwydd yn yr ardal honno. Rhybuddiodd am berygl colli'r bwrlwm cymunedol a deimlwyd yn y Fro yn ystod y ddwy flynedd cyn

dyfodiad yr Eisteddfod yno. Pwysleisiodd y ffordd y llwyddodd y dasg o godi arian i dynnu rhieni di-Gymraeg disgyblion ysgolion Cymraeg yr ardal i'r gweithgareddau, gan ychwanegu gwerth i'w dealltwriaeth nhw o ddiwylliant yr iaith Gymraeg.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

25. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn awyddus i dderbyn tystiolaeth gan yr Urdd am fanteision ac anfanteision cynnal yr Ŵyl mewn lleoliad parhaol. Holwyd swyddogion yr Urdd am eu profiad wrth gynnal Eisteddfod yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm yn 2005. Yn ystod ymweliad Eisteddfod yr Urdd â Bae Caerdydd yn 2005 gwnaethpwyd defnydd helaeth o adeiladau parhaol gan gynnwys Canolfan y Mileniwm. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn dymuno cael mwy o wybodaeth am arbedion ariannol a manteision lleoli mewn adeilad parhaol yn ogystal â holi ynglŷn â'r gronfa leol a mewnbwn gwirfoddolwyr.

26. Nodwyd yng nghyflwyniad yr Urdd fod y manteision yn cynnwys: llwyfan gwych,

- llai o gostau maes,
- adnoddau technegol/swyddfeydd,
- cryfhau partneriaeth yr Urdd â phartneriaid Canolfan Mileniwm Cymru,
- cytundeb 'arbennig' Canolfan Mileniwm Cymru a'r Urdd.

27. Roedd yr anfanteision yn cynnwys:

- llai o Maes, ac o ganlyniad llai o incwm Maes,
- dros 12 o dirfeddianwyr y bu angen delio â hwy,
- diffyg gofod rhagbrofion, diffyg amser paratoi,
- diffyg parcio
- proses gymhleth i gael y Maes yn barod.

28. Cyflwynodd yr Urdd y cymariaethau canlynol o ran costau:

- Eisteddfod arferol
 - Gwariant o £900k ar y Maes
 - Gwariant o £700k gweinyddol/celfyddydol
 - Incwm o £300k o'r gronfa leol
 - Incwm stondinwyr yn uwch
- Eisteddfod Canolfan y Mileniwm
 - Gwariant o £500k ar y Maes
 - Gwariant o £700k gweinyddol/celfyddydol
 - Dim cronfa leol
 - Llauer o gostau arferol yn parhau yr un fath

29. Daeth yr Urdd i'r casgliad nad oedd arbedion sylweddol i'w gwneud o gynnal Eisteddfod yr Urdd ar safle parhaol yng Nghanolfan y Mileniwm .

30. Crynhodd yr Urdd eu barn fel a ganlyn:

- Nid oedd safleoedd lled-barhaol ym Môn 2004 a Sir Gâr 2007 wedi arbed arian i'r Urdd – roedd y gwariant yn fwy. Roedd cost Eisteddfod 2009 ym Mae Caerdydd yn llai ond derbyniwyd llai o incwm oddi wrth stondinwyr ac nid oedd cronfa leol;

- Pwysleisiwyd gwerth gwaith y gwirfoddolwyr mewn un ardal am gyfnod o 3 blynedd: yn gyffredinol gwelir 700 o unigolion yn gyfrifol am y trefnu;
- Mae'r gweithgareddau codi arian cyfrwng Cymraeg a gynhelir cyn dyfodiad yr Eisteddfod yn cynyddu defnydd y Gymraeg yn lleol, ac yn gyffredinol gwelir 400 o leiaf o weithgareddau codi arian cyn dyfodiad yr Eisteddfod i ardal;
- Cynigir profiadau gwerthfawr i bobl ifanc a phlant: yn gyffredinol mae 250 yn perfformio yn y Sioe Gynradd, 100 yn y Sioe Uwchradd (1,000 yn Sioe agoriadol Eisteddfod Eryri 2012);
- Mae ymweliad Eisteddfod yr Urdd ag ardal yn dod â chymunedau at ei gilydd: yn cynyddu datblygu cymunedol ac yn creu rhwydweithiau cymdeithasol cryf;
- Mae ymweliad Eisteddfod yr Urdd yn creu gwaddol. Cynigiwyd yr enghreifftiau canlynol: sefydlwyd Aelwyd yr Ynys (Ynys Môn), Aelwyd Llyn y Fan (Sir Gaerfyrddin), Aelwyd Aeron (Ceredigion), Aelwyd y Waun Ddyfal (Caerdydd) mewn ymateb uniongyrchol i ddyfodiad Eisteddfod yr Urdd i ardaloedd ar draws Cymru.
- Y byddai colledion diwylliannol o ganoli Eisteddfod yr Urdd mewn un lleoliad. Ar hyn o bryd mae Eisteddfod yr Urdd yn dylanwadu ar ddatblygiad cymunedol, teyrngarwch i'r iaith a pherchnogaeth arni ar lawr gwlad.

31. Mewn ymateb i gwestiynau a holwyd gan y Grŵp Gorchwyl pwysleisiwyd bod gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddwy Eisteddfod, gyda 70% o ymwelwyr â Maes yr Urdd yno ar gyfer y cystadlu. Tra bo'r cystadlu yn ganolbwynt i Eisteddfod yr Urdd, y Maes a digwyddiadau ymylol yw cryfder yr Eisteddfod Genedlaethol. O safbwynt rhannu safleoedd Maes rhwng y ddwy Eisteddfod ambell flwyddyn, nododd yr Urdd fod hyn yn anodd oherwydd y gofyn ar bwyllgorau lleol i godi arian ac ymarferoldeb amserlen llogi offer a chyfarpar gan nad yw'r naill Eisteddfod na'r llall yn berchen ar adnoddau sylweddol. Mae'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn cydweithio ar faterion amrywiol gan gynnwys elfennau celfyddydol a chystadleuol yn ogystal â materion strategol ac ymarferol y Maes. Ychwanegodd yr Urdd fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn sefydliad a gŵyl unigryw a llwyddiannus iawn ac yn adnodd gwerthfawr i'r iaith Gymraeg ac i Gymru.

BBC Cymru ac S4C

32. Derbyniwyd tystiolaeth gan y darlledwyr, BBC Cymru ac S4C. Nodwyd bod yr Eisteddfod yn darparu cyfle arbennig i'r BBC ddatblygu cysylltiadau mewn cymunedau newydd, fel ddigwyddodd ym Mlaenau Gwent yn 2010. Nodwyd o safbwynt golygyddol fod y BBC yn gefnogol i weld yr Eisteddfod yn parhau i deithio, er eu bod yn cydnabod o safbwynt technegol fod rhywfaint o fanteision i un lleoliad parhaol, ond nid i ddau lleoliad parhaol a symud achlysurol. Mynegodd cynrychiolwyr S4C nad oeddent yn meddwl y byddai arbedion ariannol sylweddol i'w gwneud o ddatblygu lleoliadau parhaol oherwydd yr angen o hyd i osod a thynnu offer o safle a fyddai'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau darlledu am wythnos y flwyddyn yn unig. Pwysleisiwyd gan gynrychiolwyr S4C eu bod yn ffafrio gweld yr Eisteddfod yn parhau i deithio yn flynyddol.

Tynnu ar brofiad Aelodau unigol o'r Grŵp Gorchwyl

33. Cafwyd cyflwyniadau gan nifer o aelodau'r Grŵp Gorchwyl oedd â phrofiad o drefnu neu ymweld â gwyliau ar draws Prydain ac Ewrop. Roedd pob un o'r rhain yn defnyddio safleoedd parhaol. Dangoswyd sut mae cynnal lleoliadau parhaol wedi caniatáu i'r gwyliau hyn ddatblygu o flwyddyn i flwyddyn, a sut maent yn denu pobl yn ôl i'r un lleoliadau yn flynyddol. Edrychwyd ar elfennau y gellir eu trosglwyddo i'r Eisteddfod, gan ganolbwyntio yn arbennig ar wneud y safle ei hun yn fwy deniadol i ymwelwyr. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys arwyddion, defnydd o olau, lliwiau, brandio, y cyfryngau cymdeithasol a'r amgylchedd naturiol ar gyfer gwella profiadau.
34. Roedd gan un aelod yn benodol brofiad uniongyrchol o gynnal gŵyl mewn safle parhaol. Cafwyd cyflwyniad ganddo a oedd yn holi am y gost a'r egni a ddefnyddir i symud yr Eisteddfod o flwyddyn i flwyddyn o'u cymharu â'r manteision cymdeithasol a chymunedol o deithio. Trafodwyd hefyd faterion yn ymwneud â dibynadwyedd a gwerth safle neu safleoedd parhaol i'r diwydiant twristiaeth yn lleol. Holwyd y cwestiwn a yw'r Eisteddfod yn newid wrth deithio bob blwyddyn gyda chynnwys sy'n tueddu i aros yn statig er bod y lleoliad yn newydd. Awgrymwyd y gallai sicrhau cyfeiriad artistig a fyddai'n torri tir newydd y tu hwnt i'r cystadlu arwain at adfywiad ychwanegol gan ddenu cynulleidfya newydd ac y gallai hyn gael ei blethu â diwylliannau rhyngwladol eraill y tu hwnt i'r Saesneg.

Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dinbych a'r Cyffiniau 2013

35. Ymwelodd dirprwyaeth o'r Grŵp Gorchwyl â chyfarfod o Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Dinbych er mwyn deall yn well safbwyntiau gwirfoddolwyr presennol yr Eisteddfod. Fe ddigwyddodd y cyfarfod yn swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Dinbych ar 1 Gorffennaf 2013. Bu'r cyfarfod yn gyfle buddiol i holi Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ar amryw themâu gan gynnwys lleoliadau parhaol. Credai Aelodau'r Pwyllgor Gwaith mai'r model mwyaf gwerthfawr i Gymru a'r Eisteddfod yw bod yr Eisteddfod yn parhau i deithio i bob cwr o Gymru. Nodwyd bod 1,000 a mwy o bobl yn rhan o'r orymdaith yn ystod cyhoeddi Eisteddfod Sir Gâr yng Nghaerfyrddin 29 Mehefin 2013, a bod y bwrlwm, y dathlu a'r balchder i'w weld yn amlwg. Y gred amlwg ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwaith oedd na fyddai hyn yn bodoli petai'r Eisteddfod mewn safleoedd parhaol. Roedd pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith oedd yn bresennol o'r farn mai'r model gorau yw teithio i bob cwr o Gymru.
36. Aeth y Grŵp Gorchwyl ar ymweliad â Maes yr Eisteddfod yn Dinbych a chawsant eu tywys o amgylch gan Brif Weithredwr yr Eisteddfod. Dangosodd i'r Grŵp Gorchwyl y datblygiadau newydd ers Eisteddfod y flwyddyn flaenorol. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Ganolfan Ymwelwyr newydd a chlywed am y teithiau tywys. Dangoswyd y safle newydd ar gyfer ieuenctid ar faes yr Eisteddfod sef Caffi Maes B a gwelwyd Gŵyl Llên Plant ar waith. Soniwyd am y cyswllt diwifr newydd a chyflwynwyd standin M@es i'r Grŵp Gorchwyl. Yn ystod yr ymweliad cynhaliwyd sesiwn Hawl i Holi yn y babell Ddawns lle roedd cyfle i'r cyhoedd holi aelodau'r Grŵp Gorchwyl ynglŷn â'r adolygiad. Daeth aelodau'r Grŵp Gorchwyl i'r casgliad yn sgil yr ymweliad hwn fod modd i'r Eisteddfod ddatblygu ynghyd â pharhau i deithio.

Adroddiadau ymchwil

37. Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro Terry Stevens ar gynnwys yr adroddiad *Eisteddfod Genedlaethol Cymru – y Ffordd Ymlaen* (gweler paragraff 11 am fwy o fanylion ar yr adroddiad) a nododd mai

“Un o brif nodweddion yr Eisteddfod yw ei natur symudol. Mae hyn yn caniatáu i gymunedau ledled Cymru gynnal y digwyddiad, gan greu nifer o gyfleoedd i elwa yn ieithyddol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd yn y tymor byr a chanolog.”

Trafodwyd beth fyddai impact economaidd a diwylliannol lleoli'r Eisteddfod mewn un man mewn nifer o gyfarfodydd a chomisiynwyd darn o waith ymchwil gan un o Aelodau'r Grŵp Gorchwyl.

38. Nododd awdur yr adroddiad *Effaith Economaidd yr Eisteddfod Genedlaethol* fod yr asesiad hwn yn anodd i'w gyflawni o fewn y cyfyngiadau ariannol ac o ran amser. Nododd hefyd fod nifer fawr o elfennau i ddyheadau cymdeithasol-economaidd yr Eisteddfod Genedlaethol a bod hyn wedi gwneud yr asesiad yn fwy cymhleth. Nododd hefyd, wrth iddo gyflawni'r asesiad hwn, y byddai canlyniadau'r adroddiad yn wahanol petai'r briff wedi nodi'r angen i edrych ar leihau cost yr Eisteddfod. Yn y cyswllt hwnnw y casgliad fyddai fod angen i'r Eisteddfod newid - byddai'n rhaid iddi leihau mewn maint a/neu lleoli mewn un man er mwyn lleihau costau. Awgrymodd yn y cyd-destun hwn y dylid defnyddio'r un model â'r Sioe Frenhinol er y dylid wedyn bwysu a mesur y golled o ran cefnogaeth leol i'r Eisteddfod yn sgil safle “rhatach” parhaol.

39. Fodd bynnag gan fod yr adroddiad yn dilyn yr arweiniad a gafwyd gan y cyn-Weinidog, sef na ddylai trafodaethau'r Grŵp gael eu cyfyngu gan ystyriaethau ariannol, aethpwyd ati i edrych ar impact economaidd yr Eisteddfod ac yn benodol beth yw manteision ac anfanteision adleoli'r Eisteddfod bob blwyddyn rhwng De a Gogledd Cymru a chael lleoliadau newydd bob tro? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? A ddylid dilyn cylch pedair blynedd gan leoli'r Eisteddfod ar ddau safle parhaol, un yn y Gogledd-orllewin a'r llall yn y Gorllewin, a theithio rhwng y De a'r Gogledd am yn ail ar gyfer y ddwy flynedd arall?

40. Yn fras roedd methodoleg yr adroddiad yn cynnwys:

- Asesiad o ddau adroddiad a gynhyrchwyd oedd yn mesur impact yr Eisteddfod sef:
 1. *Adroddiad Newidiem (2001) i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn 2000* ac
 2. *Adroddiad gan Gyngor Sir Caerdydd ar yr Eisteddfod Genedlaethol (2008)*
- Dadansoddiad o'r data o'r adroddiadau uchod gan ddefnyddio asesiad Llanelli fel patrwm/model “gwledig” a Chaerdydd fel patrwm/model “dinesig/trefol”. (Mae'r adroddiad yn nodi fodd bynnag fod Llanelli a'i phoblogaeth o 46 mil yn fwy dinesig na gwledig a bod cyfyngiadau o ran data'n golygu bod angen ymchwil pellach i weld beth fyddai'r impact ar drefi

tebyg i Ddinbych, Caernarfon a'r Drenewydd sydd â phoblogaeth o tua 10mil yr un).

- Ystyried impact cymdeithasol/cymunedol ehangach yr Eisteddfod mewn gwahanol leoliadau.

Gan ystyried y ddau adroddiad (*Newidiem a Chyngor Sir Caerdydd*) mae awdur yr adroddiad ymchwil hwn yn nodi:

- bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn creu incwm net (GVA) o rhwng £3-£4m yn dibynnu ar y lleoliad
- bod y gwerth economaidd mwya'n debygol o fod mewn ardal ddinesig/trefol
- mai'r gwerth economaidd "premiwm" mwyaf yw tua £1m o'r incwm net lleol: ond y disgwylir i hwn fod yn is mewn ardaloedd dinesig/trefol y tu allan i Gaerdydd
- bod lleoli'r Eisteddfod mewn ardal wledig yn creu gwerth is oherwydd colled economaidd ond bod angen mesur hyn yn erbyn y ffaith bod yr Eisteddfod yn creu impact mwy mewn ardal wledig oherwydd y raddfa berthynol ac effeithiau cyfoeth yn lleol
- bod impact cymdeithasol/diwylliannol yr Eisteddfod yn uwch yn nwyrain Cymru oherwydd rhagduediadau gwannach tuag at y Gymraeg ayb
- bod lleoli'r Eisteddfod mewn dau leoliad parhaol yn creu goblygiadau gwahanol yn nhermau canlyniadau economaidd
- y byddai'r canlyniad cymdeithasol yn parhau yr un fath petai'r Eisteddfod yn dal i deithio ond y byddai'n rhaid ystyried a fyddai hyn yr un fath petai'r Eisteddfod yn cael ei lleoli mewn un man
- bod y Sioe Frenhinol yn gweithredu system effeithiol mewn un lleoliad ond bod hyn yn gysylltiedig â'r byd amaeth ac nad oes sicrwydd y byddai hyn yn wir am yr Eisteddfod
- at bwrpas yr adroddiad hwn, y gallwn gymryd yn ganiataol y byddai lefelau cyfraniadau, costau ac impact cymdeithasol yn aros yr un fath o leoli'r Eisteddfod mewn dau leoliad (fel sydd wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl)
- mai'r unig wahaniaethau o barhau i deithio yw costau'r Maes – sydd oddeutu £2m
- y gallai cost prynu tir ac adeiladau'r Eisteddfod fod yn sylweddol iawn
- y byddai baich ariannol o gadw'r ddau leoliad ar agor drwy gydol y flwyddyn
- y byddai gan yr Eisteddfod adeilad pwrpasol ar gyfer y dyfodol petai dau leoliad
- y byddai lleihad o tua £2m mewn gwariant yn golygu lleihad yn yr impact economaidd o tua £1m (GVA) yn flynyddol

41. Mae'r adroddiad yn nodi bod dod i benderfyniad ynghylch a ddylai'r Eisteddfod barhau i deithio yn anodd iawn. Nodwyd hefyd y byddai penderfyniad naill ffordd neu'r llall yn cael effaith fawr yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Roedd manteision ac anfanteision o barhau gyda'r system bresennol. O bwysu a mesur hyn oll daw awdur yr adroddiad i gasgliad y dylai'r Eisteddfod barhau gyda'r patrwm presennol o deithio hyd a lled Cymru.

42. Cafwyd trafodaethau helaeth ar y thema lleoliadau yn y Grŵp Gorchwyl a daethpwyd i gasgliad fod angen i'r Eisteddfod amrywio o flwyddyn i flwyddyn drwy adlewyrchu'n gryfach yr ardal mae'n ymweld â hi. Gallai hyn ddigwydd drwy helpu i gynyddu dylanwad y Pwyllgor Gwaith Lleol ar benderfyniadau canolog yr Eisteddfod.

43. Hoffai'r Grŵp Gorchwyl i'r Eisteddfod:

- arbrofi gan ddefnyddio adeiladau parhaol sydd eisoes yn bodoli
- manteisio ar ddefnyddio adnoddau a Maes gwahanol i'r arfer
- cadw mewn cof ddymuniad y Grŵp Gorchwyl bod yr Eisteddfod yn parhau i deithio
- dysgu gwersi o brofiadau cynnal gŵyl WOMEX yng Nghaerdydd eleni

44. Gan gymryd i ystyriaeth gynnwys paragraffau 42 a 43, gofynna'r Grŵp Gorchwyl (yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod â Chaerdydd yn 2018) i'r Llywodraeth greu adroddiad ar sut mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn:

- adlewyrchu'n well yr ardal mae'n ymweld â hi
- arbrofi ag adnoddau a Maes o fath gwahanol

Cyfraniadau ddaeth drwy'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Thema 1 (gweler Atodiad 7)

45. Gwahoddwyd y cyhoedd i gyfrannu at y gwaith o adolygu'r Eisteddfod drwy agor ymgynghoriad cyhoeddus. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar ddechrau'r broses a daeth i ben ar 10 Mai 2013, a derbyniwyd bron i 300 o gyfraniadau unigol. Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad yn y wasg drwy gyfrwng cyfweiliadau gyda'r Cadeirydd, datganiadau i'r wasg, drwy ddefnydd y Llywodraeth o'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy wybodaeth ar wefan y Llywodraeth. Fe anogwyd Aelodau Llys yr Eisteddfod, a charedigion yr Eisteddfod i ymateb yn ogystal â'r Eisteddfod ei hun fel sefydliad.

46. Canolbwyntiodd nifer helaeth o'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y thema hon yn ogystal. O'r bron i 300 o ymatebion a dderbyniwyd roedd y mwyafrif helaeth o'r farn y dylai'r Eisteddfod barhau i deithio. Ymysg yr ymatebion, hefyd, fodd bynnag, cynigiodd ambell unigolyn fodel gwahanol i'r Eisteddfod mewn ardal drefol neu ddinesig gan gynnwys defnyddio adeiladau parhaol ar gyfer elfennau o'r Maes traddodiadol, megis y Pafiliwn, y Babel Lân, a'r pafiliynau llai. Gwelodd y Grŵp Gorchwyl gyfle i Eisteddfod 2018, o'i lleoli yng Nghaerdydd, arbrofi gyda hyn.

Casgliad

- Daeth y Grŵp Gorchwyl i gasgliad unfrydol ei fod yn awyddus i'r Eisteddfod barhau i deithio i ran wahanol o Gymru yn flynyddol.
- Bod gwerth economaidd a diwylliannol i ymweliad yr Eisteddfod â gwahanol ardaloedd o Gymru a gellir manteisio ar hyn drwy sicrhau fod yr Eisteddfod yn parhau i deithio i ran wahanol o Gymru yn flynyddol.

Thema 2: Y cystadlu a'r ŵyl

Rhagair

47. Holwyd y cwestiwn canlynol gan y Gweinidog yn y cylch gorchwyl:

Beth yw manteision ac anfanteision y model presennol a ddefnyddir i drefnu wythnos yr Eisteddfod a chystadlaethau'r wythnos dan reolaeth y Bwrdd Rheoli a'r Llys? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? Er enghraifft, yn y dyfodol a ellid trefnu wythnos yr Eisteddfod ar wahân i'r cystadlaethau er mwyn gwella profiad ymwelwyr ac atyniad yr Eisteddfod fel un o ddiwyddiadau diwylliannol pwysicaf Cymru?

48. Yn sgil cyfyngiadau'r astudiaeth hon ni chafwyd cyfle i ystyried a thrafod yn fanwl natur y drefn o gystadlu yn yr Eisteddfod ac awgrymir bod angen asesiad mwy manwl cyn dod i gasgliadau pendant. Er hynny, yn ystod yr ymweliad â Maes Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013 cafwyd cyfle i fynychu rhai o gystadlaethau'r Eisteddfod yn y Pafiliwn a sgwrsio gyda chystadleuwyr. Yn ogystal comisiynwyd un o aelodau'r Grŵp Gorchwyl i ymchwilio i'r elfen hon a rhoi cyflwyniad i'r Grŵp Gorchwyl. Yn y cyflwyniad nodwyd bod cystadlu yn bwysig fel rhan o'r Eisteddfodau cynnar, a bod parhau'r traddodiad hwn yn dal i sicrhau cynulleidfaoedd newydd wrth i apêl cystadlu barhau. Nodwyd fodd bynnag mai'r her bresennol yw cadw cystadlaethau yn apelgar a boddhau disgwyliaid pob elfen o'r gynulleidfa. Mae niferoedd cystadlu diweddar wedi aros yn weddol gyson, ond ar eu hisaf yn Eisteddfod Bro Morgannwg 2012 (er, rhaid nodi mai blwyddyn Gemau Olympaidd Llundain oedd hi). Yn ystod y trafodaethau nododd y Grŵp Gorchwyl fod y rhestr destunau gyfredol yn gyfrol drwchus, lawn rheolau, a heb fod yn apelgar nac yn hwylus iawn i'w defnyddio. Cytunwyd mai'r her gyda'r rhestr destunau yw canfod rhestr fodern, apelgar, heriol a diddorol ac awgrymwyd y gallai fod lle i gynnwys y Pwyllgorau Lleol yn fwy wrth benderfynu ar gynnwys y rhestr destunau. Awgrymwyd y gallai fod cyfle i gydgyfylltu testunau gyda chystadlaethau'r Urdd ac y byddai modd cysylltu testunau gyda'r cwricwlwm er mwyn denu rhagor o gystadleuwyr ifanc o ysgolion.

49. Awgrymwyd bod gan yr Eisteddfod Genedlaethol wobrau hael ac y dylid eu marchnata yn well, gan nodi bod rhwng £25 a £5,000 ar gael i enillwyr. Nodwyd y gellid chwilio am gyfleoedd i gynnig gwobrau ymarferol sydd yn rhoi hwb i yrfa hefyd, megis cyfleoedd prentisiaeth, cyfleoedd profiad gwaith, dosbarthiadau meistri ayb.

50. Wrth drafod gwahanu'r Cystadlu a'r Ŵyl nodwyd y gallai hyn fod yn gostus ac awgrymwyd y gellid edrych ar wneud defnydd gwell o'r Maes er mwyn dod â'r cystadlaethau i olwg mwy o ymwelwyr y Maes. Gellir symud rhai o'r cystadlaethau ac uwchraddio rhai digwyddiadau i leoliadau mwy e.e. symud rownd derfynol Talwrn y Beirdd i'r Pafiliwn. Nodwyd y gallai fod modd edrych ar ardaloedd gwahanol o'r Maes ar gyfer gwahanol fathau o gystadlaethau a chadw'r Pafiliwn ar gyfer digwyddiadau eraill mwy poblogaidd.

51. Awgrymwyd y gellid edrych eto ar y cystadlaethau a'r profiadau ar gyfer dysgwyr. Byddai modd i'r Eisteddfod Genedlaethol gydweithio'n agosach â'r chwe chanolfan iaith a'r tiwtoriaid i ddenu mwy o gystadleuwyr.

Fel y nodwyd eisoes barn y Grŵp Gorchwyl yw bod angen edrych yn fanylach ar ochr gystadleuol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Casgliad

- Daeth y Grŵp Gorchwyl i gasgliad cynnar na ddylid gwahanu'r Eisteddfod o'r cystadlu gan y byddai hynny'n awgrymu gorfod sefydlu gŵyl ar wahân a bod cost ynghlwm wrth hynny.
- Mae cystadlu'n cynnig cyfle arbennig i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r Eisteddfod.
- Dylid ailedrych ar elfennau o'r cystadlu a'r Pafiliwn fel lleoliad ar gyfer y cystadlu i weld a oes modd eu moderneiddio ac ehangu eu hapêl.
- Mae angen marchnata'r gwobrau yn well i gystadleuwyr.

Thema 3: Gwirfoddolwyr

Rhagair

52. O'r dechrau daeth yn amlwg fod rôl sylweddol i'r Gwirfoddolwyr o fewn strwythur yr Eisteddfod. Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion a gwirfoddolwyr yr Eisteddfod ar y gwaith a ddigwyddodd yn lleol cyn Eisteddfod 2012 a 2013. Cafwyd nifer o sylwadau drwy'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ac ar lafar yn Eisteddfod Dinbych. Yn ogystal roedd trafodaethau ar y Thema hon yn codi o dan themâu eraill, yn enwedig Thema 1 (Lleoliadau).

53. Y cwestiwn a godwyd yn y cylch gorchwyl oedd:

Sut mae cynnal a chefnogi ymrwymiad, brwdfrydedd a gweithgarwch y gwirfoddolwyr ledled Cymru?

Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

54. Yn ystod ei gyflwyniad i'r Grŵp Gorchwyl manylodd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 ar y gwaith a ddigwyddodd i ysgogi'r gwirfoddolwyr a'u hannog i gyfrannu; y cydweithio rhwng swyddogion yr Eisteddfod, y gwirfoddolwyr a'r Cyngor Sir; sut gwnaeth y gweithgareddau codi arian i'r Gronfa leol sicrhau gwaddol yr Eisteddfod yn yr ardal; datblygu lleoliadau parhaol i'r Eisteddfod; a moderneiddio'r Eisteddfod yn gyffredinol. Pwysleisiwyd yr effaith a gafodd yr Eisteddfod yn lleol a sut roedd yr Eisteddfod wedi dod â phobl yr ardal at ei gilydd. Heblaw am y £30,000 a dderbyniwyd i'r gronfa gan Gyngor Tref y Barri, pobl leol oedd wedi casglu'r £320,000 oedd yn y Gronfa Leol erbyn wythnos yr Eisteddfod. O safbwynt gwaith y gwirfoddolwyr, pwysleisiwyd yr effaith gadarnhaol gafodd yr Eisteddfod ar Gymry di-Gymraeg yr ardal, er enghraifft roedd 40% o gôr swyddogol yr Eisteddfod yn ddi-Gymraeg. Nodwyd bod cynlluniau i'r côr barhau yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod. Adroddwyd yn anecdotaid hefyd fod busnesau ardal y Bont-faen wedi gweld budd economaidd yr ymweliad. Nododd y Grŵp Gorchwyl yn ystod y drafodaeth y byddai'n fuddiol i bob Pwyllgor Gwaith lleol newydd dderbyn gwybodaeth o flwyddyn i flwyddyn gan Bwyllgor blaenorol er mwyn rhannu arferion da.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

55. Cafwyd ar ddeall gan swyddogion yr Eisteddfod fod dros 3,000 o bobl wedi gwirfoddoli fel rhan o'r "prosiect cymunedol" i godi arian yn ardaloedd yr Eisteddfod ers 2008, gyda thros 750 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal. Nodwyd bod yr Eisteddfod yn cyflogi 16 o staff ond hefyd eu bod yn cael cymorth cannoedd o wirfoddolwyr i drefnu a rhedeg yr Ŵyl yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn ogystal. Mae rhai o'r gwirfoddolwyr hyn yn dychwelyd dro ar ôl tro, ond mae'r Ŵyl hefyd yn llwyddo i ddenu criw newydd, yn enwedig o'r ardal leol. Caiff cannoedd o bobl ifanc gyfle i gael profiad gwaith yn flynyddol yn ystod y cyfnod cyn ac yn ystod yr Ŵyl. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflogi amryw o bobl ifanc ac maent hefyd yn cynorthwyo stonidwyr a phartneriaid i recriwtio pobl ifanc i weithio iddyn nhw; a hefyd yn recriwtio stiwardiaid ifanc i weithio ym Maes B a'r Maes leuenctid yn ystod yr wythnos. Mae hyn wrth gwrs yn rhoi cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd a dysgu am bwysigrwydd rhoi o'u hamser i wirfoddoli. Nodwyd bod aelodau Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod ers 2004 hefyd yn wirfoddolwyr sydd yn cyfarfod bron yn fisol..
56. Soniodd swyddogion yr Eisteddfod am waddol yr Eisteddfod yn ogystal, gan nodi bod pedair elfen iddo, sef Economaidd, Ieithyddol, Cymunedol a Diwylliannol. Mae'r gwaddol lleol yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ardal. Cymerwyd fel enghraifft y gwaddol economaidd. Cynhaliwyd arolygon annibynnol deirgwaith ar effaith economaidd yr Eisteddfod ar y dalgylch, sy'n dangos bod yr wythnos yn creu budd economaidd o rwng £6 ac £8 miliwn yn lleol. Nid yw'r Eisteddfod wedi gwneud ymarfer tebyg ar gyfer cyfnod y prosiect cymunedol ond byddai'n ddi-ddorol gwneud hyn er mwyn gweld beth yw gwir effaith yr Eisteddfod gyfan ar yr economi. Ac efallai ei bod yn werth tynnu sylw at ddwy enghraifft arall o'r gwaddol; Saith Seren, canolfan Gymraeg newydd yn Wrecsam a sefydlu côr *Only Boys Aloud* sy'n waddol o Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010.
57. Yn ystod cyflwyniad yr Urdd o dan Thema 1 (Lleoliadau) soniwyd am werth gwirfoddolwyr mewn un ardal am gyfnod o dair blynedd cyn dyfodiad Eisteddfod yr Urdd ac am bwysigrwydd parhau i deithio er mwyn cynnig y cyfleoedd gwirfoddoli hyn. Yn ogystal o dan yr un Thema cafwyd trafodaeth ar rôl gwirfoddolwyr wrth i'r Grŵp Gorchwyl drafod yr adroddiad "*Effaith Economaidd yr Eisteddfod Genedlaethol*" (Atodiad 4). Roedd yr adroddiad yn dyfynnu o adroddiad *Newidiam* oedd yn nodi bod "1200 o wirfoddolwyr o'r gymuned leol ynghlwm wrth drefnu gweithgareddau a chodi arian ar gyfer yr Eisteddfod" (Llanelli 2000). Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod dyfodiad yr Eisteddfod i Lanelli "wedi codi ymwybyddiaeth a phroffil yr iaith fel iaith fyw a chynnyg cyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Cymraeg".
58. Soniwyd yn helaeth gan ymatebwyr yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch gwaith y gwirfoddolwyr, gydag un yn nodi mai hyn yw "rhinwedd mwyaf yr Ŵyl". Canmolwyd gallu y criwiau lleol i drefnu gweithgareddau er mwyn cyrraedd targed y Gronfa Leol, a chysylltwyd yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd hyn gyda'r ffaith fod yr Eisteddfod yn un deithiol.

Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dinbych 2013

59. Cafwyd cyfle yn ystod cyfarfod dirprwyaeth o'r Grŵp Gorchwyl â Phwyllgor Gwaith Eisteddfod Dinbych 2013 i holi'r gwirfoddolwyr am eu profiadau yn codi arian ar gyfer y gronfa leol. Nodwyd mai'r broblem fwyaf oedd y brwydro am arian yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Er gwaethaf hyn roeddynt yn teimlo bod pobl yn awyddus iawn i gyfrannu i weld llwyddiant yr Ŵyl yn yr ardal. Defnyddiwyd esiampl o barti yn yr ardd a drefnwyd yn lleol i godi arian ac o fewn dwy awr roedd £400 wedi ei godi. Creda'r Pwyllgor Gwaith fod gwerth cymdeithasol a budd cymunedol i'r gweithgareddau codi arian hyn. Ar ôl cyfnod yr Eisteddfod credir y bydd nifer o gymdeithasau a sefydlwyd i godi arian yn parhau i fodoli yn ardal Dinbych. Nodwyd bod 316 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn y sir mewn cwta ddwy flynedd, a bod hyn wedi rhoi cyfleoedd mewn llawer o gyd-destunau i bobl ifanc gadeirio cyfarfodydd, arwain a threfnu gweithgareddau, a rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg ddefnyddio eu Cymraeg.

Casgliad

- Bod y prosiect cymunedol sydd yn cyd-fynd ag ymweliad Eisteddfod ag ardal leol yn un gwerthfawr i gyfalaf cymdeithasol yr iaith yn yr ardal honno.
- Ymddengys i'r Grŵp Gorchwyl mai dim ond drwy barhau i deithio ledled Cymru y gellir sicrhau yr ymrwymiad yma gan wirfoddolwyr o safbwynt y Gronfa Leol.
- Mae'r prosiect cymunedol yn adnodd gwerthfawr i ddenu'r di-Gymraeg at weithgarwch cyfrwng Cymraeg.
- Bod cyfle i'r Eisteddfod drosglwyddo gwybodaeth o un flwyddyn i'r llall o safbwynt y gwaith o ddenu gwirfoddolwyr, eu hyfforddi a'u hachredu a chydweithio gyda'r Urdd er mwyn denu to ifancach i wirfoddoli yn yr Ŵyl.

Thema 4: Yr oes ddigidol

Rhagair

60. Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Technoleg a'r Cyfryngau Digidol sydd yn ystyried y maes digidol a'r Gymraeg. Cynigiwyd felly fod y Grŵp hwnnw'n ystyried y cwestiwn o dan y thema hon a godwyd yn y cylch gorchwyl.

Sut mae sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar yr oes ddigidol hon wrth roi sylw i'r Eisteddfod yn y cyfryngau?

61. Yn ogystal â hynny arweiniodd un o'r aelodau drafodaeth electronig ddefnyddiol a diddorol trwy gyfrwng e-bost a gwe-sgwrsio. Cyfrannwyd at y drafodaeth gan nifer o arbenigwyr yn y maes.
62. Y prif fater a godwyd oedd yr angen am gyswllt wi-fi cadarn ar y Maes. Nodwyd bod angen rhagor o gynnwys digidol ar yr Eisteddfod, a bod angen darparu rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau'r wythnos i ymwelwyr yn ddigidol. Soniwyd am gael sgriniau mawr o amgylch y Maes i ddangos cystadlaethau o'r Pafiliwn a'r pebyll llai, a bod angen rhannu'r cynnwys yn ddigidol - efallai drwy gael cenhadon i drydar yn fyw o ddigwyddiadau. Nodwyd nad oes rhaid i'r cynnwys yma fod yn ddwyieithog.

Trafodwyd yr angen i'r Eisteddfod gael Sianel YouTube fel bod pobl yn gallu cael gafael ar ddiwyddiadau poblogaidd. Awgrymwyd y syniad o gael iTunes i werthu recordiadau o gyngherddau eiconig yr Eisteddfod, e.e. Karl Jenkins yn Fyw yn yr Eisteddfod. Mae galw mawr am recordiadau byw a gellid ei ddefnyddio fel menter fasnachol, drwy gynig canran o'r gwerthiant i'r artist.

63. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi mynd ati i ddatblygu eu defnydd o dechnoleg fodern i ddatblygu a gwella profiad ymwelwyr ar y Maes, a chroesawodd y Grŵp Gorchwyl gyflwyniad ganddynt ar y datblygiadau. Gwelwyd rhai o'r datblygiadau hyn ar waith yn ystod ymweliad y Grŵp Gorchwyl â Maes Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau. Un o'r datblygiadau yw prosiect newyddiaduraeth cymunedol. Daethpwyd i gytundeb gydag Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n hyfforddi yn y byd newyddiaduraeth i gael profiad ymarferol ar y Maes. Aed ati i gynhyrchu papur newydd digidol o'r Maes yn Ninbych eleni oedd yn gyfuniad o adolygiadau, erthyglau a chyfweiliadau.
64. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd Gŵyl Dechnoleg ar y Maes, sef M@es, ac roedd gwasanaeth galw i mewn yn y Ganolfan Groeso i roi cymorth gydag Ap yr Eisteddfod. Roedd sesiynau technoleg cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r Wyl Dechnoleg. Sicrhawyd cyswllt wi-fi cryf ar y Maes drwy gyfrwng cytundeb newydd a llwyddodd y BBC i ddarparu o'r Maes am y tro cyntaf erioed trwy gyfrwng y cyswllt hwn. Roedd "hotspots" i'r cyhoedd ar gael ar y Maes, e.e. yn y Ganolfan Groeso a'r patio bwyd, ac roedd opsiwn i bartneriaid fanteisio ar hyn hefyd. Mae hyn yn flaengar iawn o ran gwasanaeth i'r cyhoedd o safbwynt unrhyw wyl yng Nghymru. Trafodwyd y ffaith fod wi-fi yn sialens flynyddol i'r Eisteddfod ond gobeithir y bydd cysylltiad band eang ar gael ymhobman yng Nghymru erbyn diwedd 2015. Datblygwyd Ap yr Eisteddfod ymhellach eleni ac mae'n tynnu gwybodaeth o'r wefan yn awtomatig sy'n osgoi gorfod ei diweddarau. Mae'r ap yn targedu pobl ifanc a theuluoedd, ac roedd ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol i'w hyrwyddo.
65. Byddai datblygu strategaeth ddigidol gyfredol ar gyfer yr Eisteddfod yn ei galluogi i ymgynghori a chynllunio gyda rhan ddeiliaid allweddol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr Eisteddfod yn derbyn cyngor arbenigol a mewnbwn defnyddwyr ar y pwnc yma. Gallai'r strategaeth hon gynnwys materion fel edrych ar y defnydd o gynnwys digidol yr wythnos. Mae potensial i greu oriau o gynnwys digidol o faes yr Eisteddfod, a hynny nid yn unig o'r Pafiliwn. Awgrymir hefyd fod yr Eisteddfod yn ystyried presenoldeb ar YouTube er mwyn lledaenu'r cynnwys yma i gynulleidfa ehangach. Gellid creu pecyn o glipiau o gystadlaethau, sgysiau, darlithoedd, perfformiadau, blogiau, trydar ac unrhyw ddeunydd arall. Croesewir y ffaith fod trafodaethau ar droed rhwng BBC Cymru a Chasgliad y Werin ynghylch digideiddio archif yr Eisteddfod.
- 66 Bydd yn bwysig fod yr Eisteddfod yn gwerthuso'r ddarpariaeth ddigidol newydd a oedd ar gael yn 2013 ac yn mireinio a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer yr Eisteddfod nesaf.

Casgliad

- Y byddai'n ddefnyddiol i'r Eisteddfod Genedlaethol greu strategaeth ddigidol lawn ar gyfer yr Wyl er mwyn ymgynghori gydag arbenigwyr ar ddatblygiadau.

- Ei bod yn bwysig sicrhau adnoddau cadarn ar y Maes, megis gwasanaeth wi-fi dibynadwy ar bob safle.

Thema 5: Gwella profiad a chynyddu niferoedd ymwelwyr

Rhagair

67. Denodd y thema hon lawer o ymateb ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a chasglwyd tystiolaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau a chyhoeddiadau (Atodiad 4), cyflwyniadau i gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl (Atodiad 5), gweithdy gan arbenigwyr ar y pwnc, ymweliad â'r Eisteddfod yn Ninbych a'r ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiad 7). Sefydlwyd is-Grŵp Data (Atodiad 6) i edrych ar ffigurau mynediad i'r Maes ac i gynnig argymhellion i'r Grŵp Gorchwyl.

68. Roedd dau gwestiwn o'r cylch gorchwyl yn dod o dan y thema hon sef:

Sut mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?

Sut mae sicrhau bod yr Eisteddfod yn cynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr newydd, gan gynnwys pobl o gefndiroedd di-Gymraeg, gan gynnwys, er enghraifft, gwell arwyddion, amserlenni digwyddiadau a chymorth gydag offer cyfieithu?

Adroddiadau a chyhoeddiadau

69. O ran sut i wella profiad ymwelwyr cyfeiriwyd o dan Thema 1 (gweler paragraff 11,12 a 37) at yr adroddiad a baratowyd yn 2003 gan Gwmni Stevens Associates ar yr Eisteddfod (Atodiad 4 – Eisteddfod Genedlaethol Cymru – Y Ffordd Ymlaen)

70. Yn ogystal â'r adroddiad ei hun cafwyd cyflwyniad a gweithdy ar sut i wella profiad ymwelwyr gan yr Athro Terry Stevens ac ymhelaethodd ar yr angen i ystyried yr Eisteddfod fel digwyddiad, fel proses ddiwylliannol, a chyrchfan dwristaidd. Eglurodd fod angen ystyried yr Eisteddfod fel profiad strwythuredig, yn arbennig ar gyfer ymwelwyr newydd, gyda chanolbwynt cyffrous.

71. Nododd argymhellion yr adroddiad fod angen creu yr ymdeimlad o wyl ar y Maes drwy sicrhau gwell dyluniad i'r Maes, gwella marchnata'r Eisteddfod, gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill a chryfhau adnoddau cyllidol yr Wyl. Nododd y Grŵp Gorchwyl fod nifer o argymhellion yr adroddiad a gynhyrchwyd yn 2003 yn parhau yn berthnasol heddiw.

72. Yn y gweithdy edrychwyd yn fanylach ar yr Eisteddfod fel proses, lleoliad a digwyddiad gan arwain aelodau'r Grŵp Gorchwyl i edrych ar ffactorau sydd yn dylanwadu ar gynnwys yr Eisteddfod, megis cyfraniad y partneriaid i fywiogrwydd y Maes. Daethpwyd i'r casgliad bod angen i bartneriaid a sefydliadau eraill ysgwyddo cyfrifoldeb am ddarparu gŵyl fodern, ac nad cyfrifoldeb yr Eisteddfod yn unig yw hynny.

73. Trafodwyd sut y byddai modd gwneud y lleoliad yn un mwy deniadol, ei gwneud yn haws crwydro'r Maes, gyda defnydd o symbolau ac arwyddion gweledol yn cael cryn sylw. Trafodwyd y pwyntiau canlynol o safbwynt y Maes:

- Gwella cynllun y Maes, gan ganolbwyntio ar hwylustod ei gyrraedd a thaith ymwelwyr o amgylch y Maes;
- gwella elfennau esthetig/denu ymwelwyr wrth gynllunio'r Maes;
- ystyried y croeso i ymwelwyr wrth y fynedfa;
- maint y Pafiliwn, gan ystyried strwythur llai er mwyn osgoi cymaint o lefydd gwag;
- y defnydd a wneir o'r Pafiliwn: tynnu rhai cystadlaethau allan o'r Pafiliwn, a symud rhai sgysiau/darlithoedd/trafodaethau poblogaidd a digwyddiadau mewn pebyll ymylol (megis rownd derfynol Talwrn y Beirdd) i mewn i'r Pafiliwn;
- gwell arwyddion o gwmpas y Maes i arwain pobl;
- creu parthau arbennig ar y Maes e.e. parth bwyd, dawns, celf wedi'u harwyddo'n glir, gan efallai ddefnyddio lliw i frandio pebyll;
- creu synnwyr o gyffro, a disgwyl yr annisgwyl o amgylch y Maes;
- gwybodaeth ddigidol am gynnwys y dydd/wythnos ar gael mewn manau cyfleus i ymwelwyr o gwmpas y Maes;
- defnydd o olau/celf gweledol/arwyddion i arwain pobl o amgylch y Maes;
- gwneud y daith o'r fynedfa i'r Pafiliwn yn fwy diddorol - uwchraddio'r Pafiliwn yn ganolbwynt i'r Maes gan greu rhodfa o'i amgylch i'w defnyddio gan Orsedd y Beirdd er enghraifft i orymdeithio.

74. Trafodwyd brandio mewn cryn fanylder a'r cyfleoedd mae partneriaethau'r Eisteddfod gyda sefydliadau eraill yn eu cynnig ar gyfer cyd-frandio. Mae nifer o bartneriaid craidd yr Eisteddfod sydd â phresenoldeb amlwg ar y Maes yn flynyddol, megis yr Awdurdod Lleol, Cadw a'r Amgueddfa Genedlaethol yn meddu ar gronfeydd data sylweddol o gwsmeriaid/ffrindiau y byddai modd eu defnyddio er mwyn lledaenu negeseuon/cynigion arbennig ar ran yr Eisteddfod. Er enghraifft gellid defnyddio biliau treth gyngor i gyfleu negeseuon megis:

Bydd Awdurdod Lleol..... yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn
eleni rhwng.....

75. Cynigiwyd hefyd y gellid codi rhai digwyddiadau sydd yn mynd ar goll o fewn rhaglen yr Eisteddfod a rhoi sylw marchnata manylach iddynt gan ddenu cynulleidfaoedd ehangach, e.e. cynnal rhai sgysiau/darlithoedd poblogaidd yn y babell wyddoniaeth. Soniwyd am arloesedd a chreadigrwydd er mwyn gwella profiad yr unigolyn wrth ymweld â'r Maes.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

76. Gwahoddwyd swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol i wneud ail gyflwyniad i drafod eu cynlluniau i ddatblygu'r Eisteddfod ymhellach. Soniwyd yn benodol am rai newidiadau fyddai i'w gweld yn Eisteddfod 2013, er enghraifft y ffyrdd newydd o groesawu ymwelwyr a datblygiadau technolegol cyffrous. Cyflwynwyd datblygiadau newydd eraill fyddai i'w gweld gan gynnwys Caffi Maes B ar y Maes, o ganlyniad i waith ymchwil gyda phobl ifanc. Hefyd soniwyd am nifer o gynlluniau eraill sef:

prosiect newyddiaduraeth cymunedol ar y cyd ag Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd; datblygu'r ap ymhellach i'w gwneud yn bosibl creu amserlen bersonol ar gyfer yr Eisteddfod; caffi yn y Ganolfan Ymwelwyr; datblygu'r wefan, gŵyl lenyddol i blant; cadw drysau cefn y pafiliwn ar agor gydol yr amser; a lleoli hybs gwybodaeth o amgylch y Maes.

Ymweliad y Grŵp Gorchwyl ag Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013

77. Yn ystod yr ymweliad â'r Maes gwelwyd bod yr Eisteddfod wedi gweithredu ar lawer o awgrymiadau ar sut i wella profiad a dealltwriaeth dysgwyr o'r Eisteddfod. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni rhaglen ddyddiol, tywyswyr, safleoedd gwybodaeth, offer cyfieithu, gwasanaeth cyfieithu ehangach a gwell darpariaeth wi-fi. Yn ogystal gwelwyd defnydd o liw i frandio er mai teimlad y Grŵp Gorchwyl yw bod angen ehangu a chryfhau hyn.

Ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiad 7)

78. Roedd y cyfraniadau ar y themâu hyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn canolbwyntio ar y croeso mae ymwelwyr yn ei gael i'r Maes, ac yn nodi syniadau megis pecyn croeso, teithiau tywys i ymwelwyr tro cyntaf a dysgwyr, a gwell system i rannu gwybodaeth ynghylch cynnwys y diwrnod. Soniwyd hefyd am yr Orsedd a'r cyfle i wneud yn fwy o'r "pasiant" lliwgar a thrawiadol er mwyn denu ymwelwyr.

Penodi Cyfarwyddwr Artistig

79. Mewn nifer o drafodaethau cododd y Grŵp Gorchwyl y ffaith fod paratoi a chynnal ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrifoldeb enfawr i grŵp bychan o staff. Mae'r Grŵp Gorchwyl o'r farn fod cynyddu eu capasiti i fod â'r amser a'r adnoddau i ystyried elfennau creadigol yr Ŵyl yn hollbwysig i ddatblygiad yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn sgil ei drafodaethau daeth y Grŵp Gorchwyl i'r casgliad y byddai'n fuddiol i'r Eisteddfod Genedlaethol benodi Cyfarwyddwr Artistig fel rhan o uwch dîm rheoli'r Eisteddfod. Byddai'r Cyfarwyddwr Artistig yn gyfrifol am bennu cyfeiriad artistig a diwylliannol yr Ŵyl. Nodwyd yr angen i'r swydd hon fod ag elfen gref o annibyniaeth a fyddai'n caniatáu i benderfyniadau creadigol gael eu gwneud. Byddai'n bwysig penodi rhywun â gweledigaeth uchelgeisiol a beiddgar gyda dealltwriaeth lawn o'r byd celfyddydol.

80. Gyda hyn mewn golwg bydd angen i'r Eisteddfod ystyried sut byddai modd i'r Cyfarwyddwr Artistig ddod â syniadau newydd i holl elfennau'r Ŵyl. Trafodwyd yr angen i hyn gyd-blethu â strwythur presennol yr Eisteddfod Genedlaethol a rôl swyddogion eraill yr Eisteddfod Genedlaethol a fyddai'n gyfrifol am weithredu cynllun uchelgeisiol y Cyfarwyddwr Artistig. Gallai'r Cyfarwyddwr Artistig fod yn gyfrifol am:

- Gydlynu a gweithredu rhaglen artistig a thrwy hynny'n gwella'r profiadau mae ymwelwyr yn eu cael ac yn disgwyl eu cael
- Cydlynu blas lleol/rhanbarthol cryf yn achos pob Eisteddfod er mwyn adlewyrchu'n well natur y gymuned leol
- Creu ac arolygu cynllun esthetig o'r Maes

Y Ganolfan Ddehongli

81. Awgrymwyd mai da o beth fyddai sefydlu Canolfan Eisteddfodol a fyddai'n gyrchfan dwristaidd ac ar agor drwy'r flwyddyn. Byddai'r Ganolfan yn storfa o adnoddau ac arteffactau'r Eisteddfod, yn ogystal â bod yn lleoliad i ddarparu hanes yr Eisteddfod mewn modd deniadol ac apelgar. Byddai gofod ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn ymwneud â'r Eisteddfod, gofod ar gyfer cyrsiau hyfforddi ar bynciau diwylliannol, a byddai'n siop nwyddau Eisteddfodol. Byddai'n gyfle i werthu'r Eisteddfod i gynulleidfa ehangach, ac yn darparu profiad Eisteddfodol gydol y flwyddyn. Trafodwyd lleoli'r Ganolfan ar safle atyniad twristaidd hanesyddol neu ddiwylliannol poblogaidd arall megis Sain Ffagan, Castell Aberteifi neu y Llyfrgell Genedlaethol. Byddai'r Ganolfan yn cadw archif digidol yr Eisteddfod ac yn darparu clipiau electronig i'r cyhoedd o'r archif hwn. Byddai prif atyniadau'r Ganolfan yn cynnwys profiad 3D o'r daith o amgylch y Maes a'r Pafiliwn.

Cynyddu niferoedd ymwelwyr

82. Wrth ystyried cwestiwn cynyddu niferoedd, penderfynwyd sefydlu is-Grŵp Data i ymchwilio'n fanylach i systemau data'r Eisteddfod. Bwriad hyn oedd rhoi gwell syniad i'r Grŵp Gorchwyl o'r ffigurau a'r systemau oedd yn bodoli'n barod er mwyn medru cynnig awgrymiadau adeiladol i'r Eisteddfod. Byddai hyn yn golygu codi lefel incwm yr Eisteddfod Genedlaethol fyddai yn ei dro yn gwella'r profiad i ymwelwyr.

83. Canolbwyntiodd yr is-Grŵp Data ar ffigurau ymweld yr Eisteddfod gan dderbyn y wybodaeth ganlynol:

- a. gwybodaeth ar gyfrifo ffigurau mynediad i'r Maes,
- b. yr wybodaeth ddiweddaraf ar y systemau technoleg newydd,
- c. y data a gesglir o werthiant tocynnau,
- ch. y gronfa ddata sydd gan yr Eisteddfod o gysylltiadau a sut y defnyddir yr wybodaeth honno.

84. Nodwyd bod peth data yn cael ei gasglu gan yr Eisteddfod eisoes ynghylch ymwelwyr, gan gynnwys data prynwyr tocynnau'r cyngherddau a data ynghylch dewisiadau pobl wrth greu amserlenni yn Fy Eisteddfod drwy'r ap a'r wefan.

85. Edrychodd yr is-Grŵp Data (Atodiad 6) yn fanylach ar systemau casglu data yr Eisteddfod gan ganolbwyntio ar y cynulleidfaoedd amrywiol a'u tueddiadau prynu tocynnau. Cydnabuwyd bod angen cysylltu systemau prynu tocynnau sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn annibynnol ar ei gilydd. Er enghraifft mae modd prynu tocynnau maes a chyngherddau o flaen llaw drwy wefan yr Eisteddfod, ac mae'r system yn cael ei darparu gan Ticketmaster. Ar hyn o bryd nid oes system adnabod cwsmeriaid ar gael yn y swyddfa docynnau yn y ganolfan groeso. Drwy gysylltu'r ddwy ffynhonnell brynu yma, byddai modd i'r Eisteddfod gasglu gwybodaeth werthfawr iawn ynghylch tueddiadau prynu'r ymwelwyr. Golyga hyn gyfuno gallu gwefan newydd yr Eisteddfod i reoli cwsmeriaid gyda'r drefn prynu tocynnau, a buddsoddi yn y galedwedd fydd ei hangen er mwyn i'r drefn newydd fod ar gael yn y ganolfan groeso. Byddai hyn yn caniatáu i'r Eisteddfod ddyfeisio ymgyrchoedd marchnata wedi eu teilwra yn ofalus i'r gynulleidfa ac yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl ynghylch natur yr ymwelwyr.

86. Cytunwyd yn sgil y drafodaeth y dylid argymhell datblygu systemau casglu data er mwyn mynd ati mewn modd mwy systematig a phroffesiynol i gysylltu gydag ymwelwyr a photensial denu ymwelwyr newydd â'r Eisteddfod. Byddai hyn yn caniatáu i'r Eisteddfod ddod i adnabod patrymau mynychu a phrynu tocynnau'r gynulleidfa graidd yn ogystal â datblygu perthynas gyda chynulleidfaoedd newydd. Er mwyn gwneud hyn bydd yn rhaid cysylltu systemau gwerthu tocynnau, a chreu system integredig, i gynnwys y swyddfa docynnau wrth fynedfa'r Maes.
87. Daethpwyd i'r casgliad hefyd fod angen i'r Eisteddfod edrych yn fanwl ar sut i becynnu tocynnau fel eu bod yn ddeniadol i deuluoedd, pobl ifanc ac ymwelwyr yn gyffredinol. Nododd rhai aelodau o'r Grŵp Gorchwyl eu bod yn teimlo bod pris y tocynnau'n ddruod a bod hyn yn rhwystr i lawer o bobl fynychu a bod angen i ymwelwyr deimlo eu bod yn cael gwerth am arian. Gellid ystyried pecynnu'r tocynnau mewn modd sydd yn denu mwy o ymwelwyr heb fod yna gost sylweddol uwch i'r mynychwyr na'r Eisteddfod. Cytunodd y Grŵp Gorchwyl fod angen i'r Eisteddfod fuddsoddi mewn arbenigedd yn y mater hwn o becynnu tocynnau ac y byddai hyn yn fodd o gynyddu nifer yr ymwelwyr.
88. Awgrym arall a wnaed oedd y dylai'r Eisteddfod ystyried cynnal trafodaeth gyda'i phartneriaid ynghylch cyd-hyrwyddo'r Ŵyl er mwyn torri costau marchnata a chynyddu niferoedd. Gellid defnyddio cronfeydd data rhai o bartneriaid yr Eisteddfod er mwyn marchnata i niferoedd uchel, megis yr Awdurdod Lleol, Dŵr Cymru, Cadw, yr Amgueddfa Genedlaethol.
89. Er mwyn denu niferoedd cynyddol o bobl i fynychu'r Eisteddfod a, gan ddilyn yr awgrymiadau uchod, dylid ystyried cynyddu gwariant y sefydliad ar weithgareddau marchnata ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd. Yn ôl y dystiolaeth mae llawer o bobl yn gyfarwydd â bodolaeth yr Eisteddfod Genedlaethol. Rhaid cymryd mantais o'r ffaith fod pobl yn ymwybodol o'r Ŵyl er mwyn eu denu i fynychu drwy ymgyrchoedd gofalus sydd yn targedu'n benodol gynulleidfaoedd gwahanol yr Eisteddfod. Dylai'r ymgyrchoedd hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth fanwl am fynychwyr yr Ŵyl a'u tueddiadau o ran ymweliadau a phrynu tocynnau.
90. Teimlwyd y byddai'n fuddiol i'r Eisteddfod Genedlaethol ganolbwyntio yn benodol ar y Maes er mwyn denu rhagor o niferoedd i ymweld â'r Eisteddfod. Mae angen rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol gyda phobl am uchafbwyntiau'r dydd o ran digwyddiadau ar y Maes, yn y Pafiliwn a'r pebyll llai. Mae angen newid cynllun y Maes i'w wneud yn fwy deniadol a'i gwneud yn haws dod o hyd i lefydd. Dylid cynyddu'r defnydd o arwyddion gweledol megis lliwiau i frandio gwahanol ardaloedd o'r Maes. Dylid defnyddio technegau eraill megis goleuo ac arwyddbyst i helpu pobl i grwydro'r Maes. Mae angen ystyried cynnwys yr wythnos yn ofalus er mwyn uwchraddio digwyddiadau poblogaidd i bafiliynau mwy er mwyn denu cynulleidfaoedd mwy, a'u marchnata yn effeithiol. Dylid nodi'r uchafbwyntiau dyddiol drwy gydol yr wythnos er mwyn eu marchnata fel poster gwahanol i'w arddangos yn ddyddiol.

Casgliad

91. Daeth y Grŵp Gorchwyl i gytundeb:

- Y dylid edrych ar yr Eisteddfod fel Gŵyl unigryw ac yn un o drysorau'r genedl a bod dyletswydd ar bawb i farchnata'r atyniad a chynyddu niferoedd yr ymwelwyr (Llywodraeth Ganolog, llywodraeth leol, sefydliadau, cymunedau, y sector preifat ac unigolion)
- Bod lle i'r Eisteddfod Genedlaethol ddatblygu a gwella'r profiad i ymwelwyr
- Bod denu mwy o ymwelwyr i'r Maes yn bwysig i godi lefel incwm yr Eisteddfod
- Bod datblygu system integredig o adnabod prynwyr tocynnau'r Eisteddfod Genedlaethol ac yna marchnata'n effeithiol yn bwysig
- Bod creu'r gofod a'r amser i fod yn greadigol gyda chynnwys yr Ŵyl yn bwysig
- Y byddai penodi Cyfarwyddwr Artistig yn fodd o gyflawni'r uchod.

Thema 6: Cydweithio rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd

Rhagair

92. Bu cryn drafod ar botensial cydweithio pellach rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd er mwyn gwneud arbedion a hefyd er mwyn datblygu'r ochr greadigol.

93. Roedd y cylch gorchwyl yn codi'r cwestiwn canlynol:

Sut gall yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol weithio yn agosach gyda'i gilydd i rannu gwasanaethau ac adnoddau?

94. Er mwyn ateb y cwestiwn penderfynwyd comisiynu papur yr un oddi wrth yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd (Atodiad 4) er mwyn clywed eu syniadau ar gydweithio. Nodwyd yn y papurau rai meysydd ble mae'r cydweithio yn gryf megis cytundeb ar leoliadau'r Eisteddfodau, sef proses o ddewis lleoliadau ar gyfer y ddwy Eisteddfod a'r Sioe Frenhinol a hwylusir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru'n flynyddol. Nodwyd ffyrdd o ehangu'r cydweithio fodd bynnag, er enghraifft yn y mater o gasglu data a rheoli systemau cwsmeriaid, fel awgryma'r Urdd yn eu papur hwy. Gwelir bod potensial hefyd i rannu adnoddau ar y Maes, ac argymhellir gan y Grŵp Gorchwyl eu bod yn ymchwilio ar y cyd i'r posibilrwydd o wneud cais am arian cyfalaf i'r perwyl hwn.

95. Awgrymodd BBC Cymru yn eu tystiolaeth hwy i'r Grŵp Gorchwyl mai un o brif rinweddau'r ddwy Eisteddfod yw'r cyfoeth o gynnwys golygyddol a chreadigol a gynigir gan y ddwy Eisteddfod. Mae'r gorfforaeth o'r farn bod yna le pendant i archwilio sut y gellir creu dilyniant diwylliannol rhwng y ddau ddigwyddiad (e.e. cystadlaethau ar y cyd, llwyfan i enillwyr yr Urdd yn y Genedlaethol). Gallai hyn gryfhau y naill ŵyl fel y llall gan gyfoethogi arlwy BBC Cymru ar yr un pryd. Awgrym pellach a dderbyniwyd gan yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig llwyfan i enillwyr a sioeau torfol Eisteddfod yr Urdd. O safbwynt cydweithio ymarferol ar yr ochr dechnegol, awgrymwyd fod yr Eisteddfod a'r Urdd yn dod ynghyd i sefydlu partneriaeth neu is-gwmni adnoddau ar gyfer

gwasanaethau megis stondinau, darparwyr bwyd, trac-fyrddau, ceir, peirianwyr trydan, plymars, argraffwyr, toiledau ayb.

Casgliad

96. Bod angen i'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd ddechrau proses fwy ffurfiol o rannu gwybodaeth a chydweithio.

Thema 7: Ffynonellau cyllid


Rhagair

97. Edrychodd y Grŵp Gorchwyl yn helaeth ar amgylchiadau cyllidol yr Eisteddfod, a chanolbwyntiodd cyflwyniad yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddadansoddiad o sut mae'r Wyl yn cael ei hariannu.

98. Y cwestiwn a godwyd yn y cylch gorchwyl oedd:
Sut mae manteisio ar ffynonellau eraill o gyllid referniw i'r Eisteddfod?


Yr Eisteddfod Genedlaethol

99. Mae'r siartiau isod a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn dangos y ffynonellau amrywiol. Mae'r cyntaf yn dangos yr incwm a dderbyniwyd, ar gyfartaledd, rhwng 2008 a 2012:



100. Croesawodd y Grŵp Gorchwyl y ffaith fod yr Ŵyl yn denu cyllid o ffynonellau amrywiol a heb fod yn or-ddibynnol ar un ffynhonnell. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai o'r ffynonellau hyn yn rhai sy'n gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn, megis y Gronfa Leol, nawdd o'r sector preifat, a gwerthiant tocynnau. Nodwyd yn ogystal fod y dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar niferoedd ymwelwyr, niferoedd stondinau, nawdd gan gwmnïau preifat a grantiau'r sector cyhoeddus, a oedd yn cynnig sialens i'r Eisteddfod wrth lwyfannu'r Ŵyl. Bu nifer o doriadau dros y blynyddoedd diwethaf, er i elw Eisteddfod 2012 ganiatáu ar gyfer rhywfaint o ddatblygu yn ystod 2013.

101. Mae'r ail siart yn dangos gwariant yr Ŵyl, ar gyfartaledd, rhwng 2008 a 2012:



102. Ychwanegodd yr Eisteddfod Genedlaethol mai buddsoddiad mewn lleoliad cymunedol teithiol yw tipyn o'r gwariant hwn, ac eglurwyd bod yr Eisteddfod yn creu platfform ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau. Aethpwyd ymlaen i ddweud bod y platfform yma yn llwyfan i sefydliadau o bob math, sefydliadau na fyddai'n gallu neu na fyddai'n ystyried teithio i ddalgylch yr Eisteddfod fel arall. Nododd mai oddeutu £3.4 miliwn y mae'r Eisteddfod yn ei gostio i'w gynnal bob blwyddyn ac yn ogystal â hyn mae angen ychwanegu tua hanner miliwn o gost y weinyddiaeth ganolog. Ond o'r £3.9 miliwn hwn amcangyfrifir bod 85% o'r swm yma yn mynd yn uniongyrchol i gwmnïau yng Nghymru. Esboniwyd bod 9 allan o'r 11 cwmni arlwygo a ddarparodd yn Eisteddfod y Fro 2012 yn dod o Gymru.

103. Wrth ddadansoddi'r siart uchod nododd y Grŵp Gorchwyl fod gwariant yr Eisteddfod ar farchnata a chyfathrebu (5% o'r gwariant) yn eu taro yn isel. Gwnaed cymhariaeth gyda chyrrff eraill sydd yn gwario hyd at 25% o'u trosiant ar farchnata, gyda chorff

twristaidd fel Disney yn gwario 30% o'i drosiant ar farchnata. Trafododd y Grŵp Gorchwyl y byddai cynyddu'r gwariant ar farchnata yn caniatáu ar gyfer ymgyrchoedd mwy strategol yn hytrach na'r gwariant tactegol presennol.

104. Derbyniwyd adroddiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y cytundeb a bennwyd gan yr Awdurdodau Lleol a'r Eisteddfod Genedlaethol nôl yn 2006. Mae'r cytundeb yn golygu bod gan yr Eisteddfod Genedlaethol becyn ariannu sydd wedi'i seilio ar gyfraniad blynyddol gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Llofnododd cynrychiolwyr CLILC a'r Eisteddfod femorandwm cyd-ddealltwriaeth yn Abertawe fis Awst 2006 yn ystod yr Ŵyl. Pennodd y memorandwm amodau gorchwyl y bartneriaeth a fyddai'n atgyfnerthu sefyllfa ariannol yr Eisteddfod ac yn hwyluso proses fwy sefydlog o ran cynllunio busnes. Mae cytundeb y bartneriaeth wedi galluogi'r Eisteddfod i ymweld â nifer o siroedd yng Nghymru am y tro cyntaf yn ogystal â pharhau i feithrin ei pherthynas â'r fro Gymraeg draddodiadol. Er bod y ffynhonnell hon wedi atgyfnerthu sefyllfa ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol nid yw'r swm wedi cynyddu ers 2010, ac wedi lleihau ers hynny.

| Blwyddyn | Cyfraniad yr Awdurdodau Lleol |
|-----------------|--------------------------------------|
| 2007 | £350,000 |
| 2008 | £359,450 |
| 2009 | £369,335 |
| 2010 | £376,722 |
| 2011 | £371,448 |
| 2012 | £371,448 |

105. Trafodwyd dulliau o gynyddu ffynonellau cyllid yr Eisteddfod mewn sawl cyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl. Gwelwyd bod angen bod yn greadigol wrth fynd am nawdd o ffynonellau newydd ac awgrymwyd y gallai'r Eisteddfod Genedlaethol ddatblygu'r gallu i wneud hyn.

106. Mae Thema 5 sydd yn delio â chynyddu niferoedd ymwelwyr yn gorgyffwrdd â'r Thema hon ac mae'n rhaid ystyried casgliadau'r Thema honno wrth ddod i gasgliad am sut i gynyddu ffynonellau cyllid yr Eisteddfod Genedlaethol.

Casgliad

- Bod angen buddsoddiad pellach yn yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn caniatáu i'r Ŵyl ddatblygu i fod yn ŵyl fydd yn denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd.

Yr ymgyngoriad cyhoeddus (Atodiad 7)

107. Daeth ymatebion gan nifer o ymatebwyr, yn unigolion a sefydliadau (gweler paragraff 45). Aeth Merched y Wawr ati i gydlynu templed llythyr i'w haelodau eu hanfon, a derbyniwyd deiseb ac arni 300 o enwau gan ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion ardal y gogledd ddwyrain. Mae'r sefydliadau eraill a ymatebodd yn cynnwys UCAC, Mudiad Meithrin, BBC Cymru, Dyfodol yr Iaith, Mentrau Iaith Cymru, nifer o Fentrau Iaith unigol, Côr Meibion Pontarddulais, Grŵp Gorchwyl Ynni Gwynt Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Rhaid nodi nad yw'r ymatebwyr yn sampl

cynrychioladol o'r boblogaeth a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth bwysu a mesur arwyddocâd y sylwadau.

108. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar ddau fater cyntaf y cylch gorchwyl sef lleoli'r Eisteddfod mewn lleoliadau parhaol, ac roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion o blaid cadw'r Eisteddfod yn deithiol. Roedd amryw yn sôn am wella'r croeso i ymwelwyr wrth gyrraedd y Maes, cyfathrebu gwell gydag ymwelwyr a gwneud defnydd helaethach o dechnoleg gwybodaeth. Soniwyd hefyd am y sylw prin mae'r Wyl yn ei chael yn y cyfryngau di-Gymraeg yng Nghymru.

Rhan 3: Argymhellion

109. Cyflwynir argymhellion y Grŵp Gorchwyl at sylw'r Prif Weinidog. Mae'r argymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniodd y Grŵp Gorchwyl yn ystod ei drafodaethau. Mae'r argymhellion wedi eu grwpio yn unol â themâu'r Cylch Gorchwyl.

110. Mae goblygiadau cyllidol i rai o'r argymhellion a gyflwynir. Bydd angen rhagor o ystyriaeth i fater y cyllid refeniw a chyfalaf y bydd ei angen ar yr Eisteddfod er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn.

111. Mae'r Grŵp Gorchwyl hefyd yn dymuno cydnabod natur ddemocrataidd strwythurau rheoli'r Eisteddfod. Bydd unrhyw weithredu ar yr argymhellion hyn yn dibynnu ar gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru a'r Eisteddfod.

Argymhelliad 1:

Lleoliadau

Bod yr Eisteddfod yn parhau i deithio i wahanol ardaloedd o Gymru bob blwyddyn. Ei bod yn arbrofi gydag adlewyrchu'n well yr ardal leol mae'n ymweld â hi ac yn gwneud defnydd o adnoddau sefydlog megis adeiladau yn Eisteddfod Caerdydd 2018. Yn dilyn Eisteddfod Caerdydd 2018 bod y Llywodraeth yn paratoi adroddiad ar y ddwy elfen hon.

Argymhelliad 2:

Gwella profiad

Bod yr Eisteddfod yn penodi Cyfarwyddwr Artistig newydd i fod yn gyfrifol am greu gŵyl ddeinamig fydd yn denu ymwelwyr o bedwar ban byd fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Er mwyn gwireddu hyn bydd angen i'r Eisteddfod edrych ar gynllun y Maes ac ehangu ei Strategaeth Farchnata i gynnwys mwy o gyfraniad gan bartneriaid sydd yn arddangos ar y Maes.

Argymhelliad 3:

Y cystadlu a'r Ŵyl

Bod y Cyfarwyddwr Artistig, gydag eraill, yn ymchwilio i'r cystadlaethau presennol ac yn cynnig cynllun i ddatblygu'r Eisteddfod er mwyn sicrhau rhestr o gystadlaethau fydd yn apelgar, cyfoes a blaengar, ond gan drysori'r traddodiadol ar yr un pryd.

Argymhelliad 4:

Cynyddu niferoedd

Bod yr Eisteddfod yn paratoi Strategaeth Farchnata sy'n cynnwys gweithio gyda stondinwyr, noddwyr a chyrrff cyhoeddus i hyrwyddo'r Eisteddfod a datblygu system integredig ar gyfer casglu data a gwerthu tocynnau yn ogystal â chreu cynllun i becynnu tocynnau fydd yn fwy deniadol i deuluoedd, pobl ifanc ac ymwelwyr yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn, bod yr Eisteddfod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Dreftadaeth ac Archifdy digidol.

Argymhelliad 5:

Gwirfoddolwyr

Yng nghyswllt y ffaith y bydd yr Eisteddfod yn parhau i deithio, bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn creu cynllun i ddenu mwy o wirfoddolwyr ifanc. Gellir gwneud hyn drwy ymgynghori gyda Fforwm Ieuenctid yr Urdd, ymysg eraill, a cholegau ac ysgolion lleol

er mwyn gweithio mewn ffordd gydlynol i sicrhau rhaglen flynyddol o weithgarwch cymunedol i bobl ifanc ym mro'r Eisteddfod.

Argymhelliad 6:

Yr oes ddigidol

Bod yr Eisteddfod yn sefydlu Grŵp o arbenigwyr i greu Strategaeth Ddigidol uchelgeisiol fydd yn sicrhau bod yr Ŵyl yn parhau i ddatblygu'n dechnolegol.

Argymhelliad 7:

Cydweithio rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol

Bod Llywodraeth Cymru'n trefnu cyfarfodydd cydweithio o leiaf ddwywaith y flwyddyn rhwng yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ac yn annog y ddau sefydliad i wneud ceisiadau cyfalaf ar y cyd.

Argymhelliad 8:

Ffynonellau cyllid

Bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru'n cynyddu grant referniw a chyfalaf yr Eisteddfod i'w galluogi i:

- Benodi Cyfarwyddwr Artistig
- Datblygu gallu'r Eisteddfod i ddenu nawdd
- Prynu arbenigedd yn y mater o becynnu tocynnau neu gynnig tocynnau rhad ac am ddim/am bris gostyngol
- Buddsoddi mewn systemau casglu data
- Cynyddu ei chyllideb farchnata.

Argymhelliad 9:

Bod Llywodraeth Cymru'n dylanwadu ar y cyrff cyhoeddus sydd â phresenoldeb yn yr Eisteddfod drwy ofyn iddynt, o fewn eu llythyron cylch gorchwyl blynyddol, i greu partneriaeth gref gyda'r Eisteddfod ac i fuddsoddi yn eu presenoldeb ar y Maes.

Atodiad 1: Cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl

Cylch Gorchwyl y Grŵp

- i. Beth yw'r manteision a'r anfanfeision o adleoli'r Eisteddfod bob blwyddyn rhwng De a Gogledd Cymru ac i leoliadau newydd bob tro? Beth fyddai manteision ac anfanfeision modelau eraill? A ddylid dilyn cylch pedair blynedd gan leoli'r Eisteddfod ar ddau safle parhaol, un yn y Gogledd-orllewin a'r llall yn y Gorllewin, a theithio rhwng y De a'r Gogledd am yn ail ar gyfer y ddwy flynedd arall?
- ii. A allai lleoliadau parhaol i'r Eisteddfod ysgogi'r ardaloedd hynny yn economaidd, gan hybu twristiaeth ddiwylliannol, ac adlewyrchu y celfyddydau yng Nghymru ar eu gorau?
- iii. Beth yw manteision ac anfanfeision y model presennol a ddefnyddir i drefnu wythnos yr Eisteddfod a chystadlaethau'r wythnos dan reolaeth y Bwrdd Rheoli a'r Llys? Beth fyddai manteision ac anfanfeision modelau eraill? Er enghraifft, yn y dyfodol a ellid trefnu wythnos yr Eisteddfod ar wahân i'r cystadlaethau er mwyn gwella profiad ymwelwyr ac atyniad yr Eisteddfod fel un o ddigwyddiadau diwylliannol pwysicaf Cymru?
- iv. Sut mae cynnal a chefnogi ymrwymiad, brwdfrydedd a gweithgarwch y gwirfoddolwyr ledled Cymru?
- v. Sut mae sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar yr oes ddigidol hon wrth roi sylw i'r Eisteddfod yn y cyfryngau?
- vi. Sut mae sicrhau bod yr Eisteddfod yn cynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr newydd, gan gynnwys pobl o gefndiroedd di-Gymraeg, gan gynnwys, er enghraifft, gwell arwyddion, amserlenni digwyddiadau a chymorth gydag offer cyfieithu?
- vii. Sut gall yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol weithio yn agosach gyda'i gilydd i rannu gwasanaethau ac adnoddau?
- viii. Sut mae manteisio ar ffynonellau eraill o gyllid referniw i'r Eisteddfod?
- ix. Sut mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?

Amserlen Cyfarfodydd y Grŵp

Cyfarfod 1: 27 Tachwedd 2012
Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd

Cyfarfod 2: 31 Ionawr 2013
Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd a Swyddfa Llywodraeth Cymru Llandudno

Cyfarfod 3: 13 Mawrth 2013
Swyddfa Llywodraeth Cymru Bedwas a Swyddfa Llywodraeth Cymru Caernarfon

Cyfarfod 4: 9 Ebrill 2013
Swyddfa Llywodraeth Cymru Bedwas

Cyfarfod 5: 15 Mai 2013
Swyddfa Llywodraeth Cymru Trefforest a Swyddfa Llywodraeth Cymru Caernarfon

Cyfarfod 6: 26 Mehefin 2013
Swyddfa Llywodraeth Cymru Bedwas a Swyddfa Llywodraeth Cymru Caernarfon

Ymweliad ag Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, 7 Awst 2013

Cyfarfod 7: 30 Medi 2013
Swyddfa Llywodraeth Cymru, Tŷ Brunel, Caerdydd a Swyddfa Llywodraeth Cymru
Caernarfon

Atodiad 2: Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl

Aelodaeth y Grŵp

| Enw |
|------------------------|
| Roy Noble |
| Peter Florence |
| Dafydd Elis-Thomas AC |
| Eirlys Pritchard Jones |
| Sioned Wyn Roberts |
| Nia Parry |
| Bethan Elfyn |
| Aran Jones |
| John Pritchard |
| Ali Yassine |
| Sian Eirian |

Gwahoddwyd Daniel Evans i fod yn aelod o'r Grŵp yn ogystal, ond oherwydd ymrwymadau eraill nid oedd yn gallu mynychu'r cyfarfodydd.

Atodiad 3: Rhestr sefydliadau/unigolion a gyflwynodd dystiolaeth yn y cyfarfodydd

Sefydliadau / Unigolion a gyflwynodd dystiolaeth

| | Enw | Teitl | Sefydliad | Dyddiad |
|----|---|--|---|---|
| 1 | Elfed Roberts Gwenllian Carr Peter Davies | Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Cyfathrebu Cyfarwyddwr Cyllid | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 27 Tachwedd 2012 27 Tachwedd 2012 a 15 Mai 2013 27 Tachwedd 2012 a 15 Mai 2013 |
| 2 | Terry Stevens | Ymgynghorydd Annibynnol | Stevens Associates | 27 Tachwedd 2012 a 9 Ebrill 2013 |
| 3 | Dr Dylan Jones | Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith | Eisteddfod Bro Morgannwg 2012 | 27 Tachwedd 2012 |
| 4 | Efa Gruffudd Jones Aled Sion | Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd | Urdd Gobaith Cymru | 31 Ionawr 2013 |
| 5 | Peter Florence | Cyfarwyddwr | Gŵyl y Gelli | 31 Ionawr 2013 |
| 6 | Dr Chris Llewelyn | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Ar ffurf papur 31 Ionawr 2013 |
| 7 | Sian Gwynedd Rhys Evans | Pennaeth Rhaglenni Cymraeg Rheolwr Strategaeth a Pholisi | BBC Cymru | 26 Mehefin 2013 |
| 8 | Geraint Rowlands Jane Felix Richards | Pennaeth Darlledu a Chomisiynydd Digwyddiadau a Chwaraeon Pennaeth Marchnata a Hyrwyddo | S4C | 26 Mehefin 2013 |
| 9 | John Pritchard | Ymgynghorydd Annibynnol | Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol | 15 Mai 2013 |
| 10 | Eirlys Pritchard Jones | Ymgynghorydd Annibynnol | Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol | 15 Mai 2013 |

Atodiad 4: Adroddiadau a chyhoeddiadau a welwyd ac a gomisiynwyd gan y Grŵp Gorchwyl

Adroddiadau a chyhoeddiadau a Welwyd ac a Gomisiynwyd gan y Grŵp Gorchwyl
Gellir cysylltu â Llywodraeth cymru (unediaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk) os dymunwch dderbyn copi.

1. Cynllun Busnes yr Eisteddfod Genedlaethol 2012-2014
2. Bywgraffiadau Bwrdd a Thîm Rheoli'r Eisteddfod Genedlaethol
3. Taflenni Gwybodaeth ynghylch yr Eisteddfod Genedlaethol
4. Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod Genedlaethol
5. Adroddiad Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012
6. Canfyddiadau ymchwil yn dilyn Eisteddfod Bro Morgannwg 2012
7. Canfyddiadau ymchwil Maes D 2012
8. Gwireddu argymhellion Adroddiadau Gwerthuso'r Eisteddfod 2010-2011
9. Moderneiddio'r Eisteddfod – datblygiadau ers 2001
10. Cyswllt rhagweithiol rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a Llywodraeth Cymru 2009-2012
11. Adroddiad Gwerthuso yr Eisteddfod Genedlaethol, Buddsoddwyr Mewn Pobl, 2011
12. Polisi Cynladwyedd yr Eisteddfod Genedlaethol
13. Polisi Iechyd a Diogelwch yr Eisteddfod Genedlaethol
14. Adroddiad Ymweliad Adolygu Comisiynwyr Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr 2005
15. Adroddiad Bethan Whittall a Heledd Fychan ar Eisteddfod Genedlaethol 2012
16. Adroddiad Ymchwil Maes B 2013
17. Eisteddfod Genedlaethol Cymru – y Ffordd Ymlaen, Stevens Associates 2003
18. Effaith Economaidd yr Eisteddfod Genedlaethol, John Owen Pritchard
19. Crynodeb Gweithredol, John Owen Pritchard
20. Papur Cydweithio Urdd Gobaith Cymru, Mehefin 2013
21. Papur Cydweithio Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mai 2013

22. Partneriaethau CLILC gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Atodiad 5: Cyflwyniadau a gomisiynwyd gan y Grŵp Gorchwyl

Cyflwyniadau a roddwyd i'r Grŵp

Gellir cysylltu â Llywodraeth Cymru (unediaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk) os dymunwch dderbyn copi.

1. Cyflwyniad Elfed Roberts, Eisteddfod Genedlaethol, 27 Tachwedd 2012
2. Cyflwyniad Dylan Jones, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Morgannwg 2012, 27 Tachwedd 2012
3. Cyflwyniad Terry Stevens, Stevens Associates, 27 Tachwedd 2012
4. Cyflwyniad Efa Gruffudd Jones ac Aled Sion, Eisteddfod yr Urdd, 31 Ionawr 2013
5. Cyflwyniad ar Wyliau Teithiol, 13 Mawrth 2013
6. Cyflwyniad Gwenllïan Carr a Peter Davies, yr Eisteddfod Genedlaethol, 15 Mai 2013
7. Cyflwyniad ar gystadlu o fewn yr Eisteddfod Genedlaethol, 15 Mai 2013
8. Cyflwyniad BBC Cymru, 26 Mehefin 2013
9. Cyflwyniad S4C, 26 Mehefin 2013

Atodiad 6: Aelodaeth a chasgliadau yr Is-Grwpiau Gorchwyl

Aelodaeth a chasgliadau yr is-grwpiau

1. Is-grŵp Gŵyl

1.1 Aelodaeth

Nia Parry
Sioned Wyn Roberts
Bethan Elfyn
Sian Eirian
Eirlys Pritchard Jones

1.2 Cwestiynau dan ystyriaeth

- ***Sut mae sicrhau bod yr Eisteddfod yn cynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr newydd, gan gynnwys pobl o gefndiroedd di-Gymraeg, gan gynnwys er enghraifft, gwell arwyddion, amserlenni digwyddiadau a chymorth gydag offer cyfieithu?***
- ***Sut mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?***

1.3 Casgliadau

1. Y Maes

- cynllun y Maes
- gwella elfennau esthetig/denu ymwelwyr wrth gynllunio'r Maes
- ystyried y croeso i ymwelwyr wrth y fynedfa
- maint y Pafiliwn, defnydd a wneir o'r Pafiliwn
- arwyddion o gwmpas y Maes
- creu parthau arbennig ar y Maes e.e. parth bwyd, dawn, celf, wedi'u harwyddo'n glir
- creu synnwyr o gyffro, a disgwyl yr annisgwyl
- gwybodaeth am gynnwys y dydd/wythnos i ymwelwyr o gwmpas y Maes
- *“visual signposting & points of reference”*
- gwneud y daith o'r fynedfa i'r Pafiliwn yn fwy diddorol

2. Partneriaethau

- rôl partneriaid o ran gwneud eu presenoldeb yn ddiddorol – moderneiddio
- dylanwad y Llywodraeth o ran presenoldeb partneriaid y sector cyhoeddus ar y Maes
- partneriaeth bosibl gyda'r sector preifat i ddarparu gwell dewis o lety
- defnyddio grym marchnata partneriaid, e.e. cronfa ddata cwsmeriaid, i gyd-farchnata'r Eisteddfod
- cyd-frandio ar faes yr Eisteddfod, e.e. Oxfam@Eisteddfod, DwrCymru@Eisteddfod, TheatrGenedlaethol@Eisteddfod

3. Cyfarwyddiaeth Artistig
 - angen cyfeiriad artistig cryfach ar yr Eisteddfod
 - rôl guradurol i edrych ar gynnwys yr Eisteddfod, o fewn y strwythur rheoli gydag annibyniaeth i weithredu

4. Dadansoddi Data
 - angen i'r Eisteddfod ddod i adnabod y gynulleidfa yn well
 - edrych ar ystadegau pwy sy'n dod, pa mor aml maen nhw'n dod, o ble maen nhw'n dod, ydyn nhw'n dod 'nôl yn y blynyddoedd wedyn ayb
 - edrych ar wariant ar farchnata (gweler isod)
 - ystyried systemau electronig dadansoddi data
 - ystyried defnydd o'r gronfa ddata
 - ystyried systemau casglu gwybodaeth, e.e. cyfeiriadau e-bost ar gyfer y gronfa ddata
 - Ap Eisteddfod yn ffordd o gasglu data

5. Cyfathrebu gyda'r Gynulleidfa
 - angen ymgyrchoedd marchnata strategol, mwy
 - angen defnyddio gwybodaeth/gallu partneriaid i gyfathrebu â'u cynulleidfaoedd hwy, e.e. cronfa ddata partneriaid
 - uwchraddio digwyddiadau o bwys, e.e. darlith gwyddonydd byd-enwog i'r Pafiliwn yn lle un o'r neuaddau llai, marchnata gwell
 - shift i farchnata nid gwerthu
 - angen neilltuo rhagor o gyllid ar gyfer yr elfen hon

6. Strwythur Llywodraethol yr Eisteddfod
 - angen symleiddio'r strwythur
 - angen strwythur mwy hyblyg, gallu ymateb yn gynt i newidiadau
 - angen i'r paneli canolog fod yn hyblyg, yn agored i syniadau newydd gan y pwyllgorau lleol
 - angen cryfhau/buddsoddi ymhellach yn y swyddogaeth cysylltu â'r wasg
 - angen cryfhau/buddsoddi ymhellach yn y swyddogaeth denu nawdd

7. Canolfan i'r Eisteddfod
 - lleoli canolfan ganolog Eisteddfod yn un o sefydliadau cenedlaethol Cymru, e.e. yn Sain Ffagan neu'r Llyfrgell Genedlaethol, Nant Gwrtheyrn, Canolfan Dinefwr Aberteifi
 - storfa o adnoddau am yr Eisteddfod, cadw arteffactau'r Eisteddfod, rhoi profiad 3D i bobl o fod ar y Maes;
 - creu atyniad twristaidd diwylliannol a hanesyddol

8. Llywodraeth @ eisteddfod
 - fforwm agored i drafod gyda gwleidyddion e.e. Carwyn Jones yn cynnal syrjeri bob dydd ar y Maes.

2. Is-grŵp Data

2.1 Aelodaeth

Aran Jones
John Pritchard
Peter Florence

2.2 Cwestiynau dan ystyriaeth

- ***Sut mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?***
- ***Sut mae manteisio ar ffynonellau eraill o gyllid refeniw i'r Eisteddfod?***

2.3 Casgliadau

Systemau caglu data

Edrychodd yr is-grŵp data yn fanylach ar systemau casglu data yr Eisteddfod gan ganolbwyntio ar y cynulleidfaoedd amrywiol a'u tueddiadau prynu tocynnau. Cynhaliwyd cyfarfod ar 14 Mai 2013 rhwng cynrychiolydd o'r is-grŵp data a swyddogion yr Eisteddfod er mwyn deall eu systemau yn well, a chasglu gwybodaeth. Nodwyd bod angen cysylltu systemau pryniant tocynnau sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn annibynnol ar ei gilydd. Er enghraifft mae modd prynu tocynnau maes a chyngherddau o flaen llaw drwy wefan yr Eisteddfod, ac mae'r system yn cael ei darparu gan Ticketmaster. Yn anffodus, mae'r Eisteddfod wedi nodi bod ymwelwyr yn dal i dueddu i brynu tocynnau maes ar fore eu hymweliad, heb gymryd mantais o gynigion arbennig sydd ar gael ar y wefan o flaen llaw. Ar hyn o bryd nid oes system adnabod cwsmer ar gael yn y swyddfa docynnau yn y ganolfan groeso. Drwy gysylltu'r ddwy ffynhonnell brynu yma byddai modd i'r Eisteddfod gasglu gwybodaeth werthfawr iawn ynghylch tueddiadau prynu'r ymwelwyr. Golyga hyn brynu system gwerthu tocynnau newydd i'r ganolfan groeso fyddai'n adnabod y cwsmer un ai drwy eu cerdyn credyd neu god post. Byddai hyn yn caniatáu i'r Eisteddfod ddyfeisio ymgyrchoedd marchnata wedi eu teilwra yn ofalus i'r gynulleidfa, yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl ynghylch natur yr ymwelwyr.

3. Is-grŵp Technoleg

3.1 Aelodaeth

Sioned Wyn Roberts
Rhodri ap Dyfrig
Carl Morris
Owain Schiavone

3.2 Cwestiwn dan ystyriaeth

- *Sut mae sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar yr oes ddigidol hon wrth roi sylw i'r Eisteddfod yn y cyfryngau?*

3.3 Casgliadau

CYSYLLTIADAU Wi-Fi

- Mae angen wi-fi ar faes yr eisteddfod sy'n gweithio'n gyflym, sy'n gallu gwasanaethu miloedd o declynnau ar yr un pryd ac yn ddigon pwerus i drosglwyddo cynnwys o bob math gan gynnwys fideo a sain.

GWASANAETH DIGIDOL

- Datblygu cynnwys digidol o safon sy'n cynnig profiad arbennig. Mae angen i'r Eisteddfod dderbyn cyngor arbenigol er mwyn datblygu strategaeth ddigidol ar gyfer yr ŵyl.

- Datblygu Ap o safon - Roedd 14,000 wedi lawrlwytho Ap newydd Eisteddfod yr Urdd eleni. Roedd yn cynnwys clipiau fideo, map, gwybodaeth a'r gallu i greu dyddiadur personol. Roedd yr adborth yn arbennig o dda.

- Efallai mai gwefan sy'n gweithredu ar bob teclyn symudol ac yn edrych fel ap sydd orau i'r Eisteddfod. Fel uchod, mae cyngor arbenigol yn bwysig.

CREU "SŴN"

- Rhannu cynnwys yn ddigidol. Mae llawer o ddarlledu o'r pafiliwn ond dim digon o'r digwyddiadau o gwmpas y Maes. Tybed oes cyfle i rannu cynnwys o'r Maes ac o'r digwyddiadau yn ddigidol? Cynnwys fideo, blogiau a thrydar.

- Penodi unigolion sy'n mwynhau trydar a rhannu cynnwys digidol i fod yn llysgenhadon digidol, i ddod i'r Eisteddfod a lledaenu'r cynnwys.

- Creu a rhannu straeon o gwmpas digwyddiadau penodol e.e. mae'r Theatr Genedlaethol wedi gwneud hyn yn ddiweddar gyda'r Bont, sef creu cynnwys digidol o gwmpas perfformiad.

- Gall cynnwys digidol fod yn y Gymraeg yn unig. Yn dathlu natur unigryw y digwyddiad.

Y MAES

- Creu parthau digidol lle mae modd gweld a defnyddio cynnwys newydd yn y Gymraeg.

- Cynnal sesiynau Codio Cymraeg yn y babell Wyddoniaeth (hyn wedi gweithio'n dda yn yr Urdd / S4C eleni)

- Defnyddio sgriniau mawr ar y Maes i ddarlledu cynnwys o'r pafiliwn ond hefyd i ddangos beth sydd yn digwydd ar y Maes a ble.

ARCHIF

- Yr Eisteddfod i drafod gyda YouTube er mwyn sefydlu sianel Eisteddfod. Lle arbennig i gadw cynnwys symudol a chreu archif.

Atodiad 7: Yr ymgynghoriad cyhoeddus

Llythyr a ryddhawyd i wahodd cyfraniad gan y cyhoedd

ADOLYGIAD O'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL – GWAHODDIAD I GYFRANNU SYLWADAU

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, ei fwriad i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried dyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol. Nod y Grŵp yw ystyried opsiynau i foderneiddio'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd gofyn i'r Grŵp adrodd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn mis Medi 2013 a darparu argymhellion ar y ffordd ymlaen.

Bydd gofyn i'r Grŵp ystyried:

- a. Beth yw'r manteision a'r anfanteision o adleoli'r Eisteddfod bob blwyddyn rhwng De a Gogledd Cymru ac i leoliadau newydd bob tro? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? A ddylid dilyn cylch pedair blynedd gan leoli'r Eisteddfod ar ddau safle parhaol, un yn y Gogledd-orllewin a'r llall yn y Gorllewin, a theithio rhwng y De a'r Gogledd am yn ail ar gyfer y ddwy flynedd arall?;
- b. A allai lleoliadau parhaol i'r Eisteddfod ysgogi'r ardaloedd hynny yn economaidd, gan hybu twristiaeth ddiwylliannol, ac adlewyrchu'r celfyddydau yng Nghymru ar eu gorau?
- c. Beth yw manteision ac anfanteision y model presennol a ddefnyddir i drefnu wythnos yr Eisteddfod a chystadlaethau'r wythnos dan reolaeth y Bwrdd Rheoli a'r Llys? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? Er enghraifft, yn y dyfodol a ellid trefnu wythnos yr Eisteddfod ar wahân i'r cystadlaethau er mwyn gwella profiad yr ymwelwyr ac atyniad yr Eisteddfod fel un o ddigwyddiadau diwylliannol pwysicaf Cymru?
- d. Sut mae cynnal a chefnogi ymrwymiad, brwdfrydedd a gweithgarwch y gwirfoddolwyr ledled Cymru?
- e. Sut mae sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar yr oes ddigidol hon wrth roi sylw i'r Eisteddfod yn y cyfryngau?
- f. Sut mae sicrhau bod yr Eisteddfod yn cynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr newydd, gan gynnwys pobl o gefndiroedd di-Gymraeg, gan gynnwys, er enghraifft, gwell arwyddion, amserlenni digwyddiadau a chymorth gyda offer cyfieithu?
- g. Sut gall yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol weithio yn agosachâ'i gilydd i rannu gwasanaethau ac adnoddau?
- h. Sut mae manteisio ar ffynonellau eraill o gyllid refeniw i'r Eisteddfod?

- i. Sut mae cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?

Ni fydd cylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys trafodaeth ar newid y rheol Gymraeg.

Fe'ch gwahoddir i gyflwynoeich sylwadau ar yr uchod, neu ar unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Eisteddfod, drwy lythyr neu e-bost i'r cyfeiriadau canlynol:

Adolygiad yr Eisteddfod Genedlaethol
Is-adran y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau,
Llywodraeth Cymru
3ydd Llawr, Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ

neu adolygiadeisteddfod@cymru.gsi.gov.uk cyn 31 Mawrth 2013.

Bydd y Grŵp yn derbyn copi o bob sylw ac yn rhoi ystyriaeth deg i'r sylwadau yn ystod ei drafodaethau. Amgaeir rhestr o aelodau'r Grŵp er gwybodaeth.